# ECO'R WYDDFA

RHIF 97 TACHWEDD 1984 Pris: 20c

## WYNEBAU EISTEDDFODOL Y PLANT



*Ar ôl y perfformans — y gwobrau! Y cystadleuwyr ieuengaf un yn Eisteddfod Llanrug — wrth fwrdd y trysorydd.*



*Rhai o'r cystadleuwyr ifainc yn aros am eu tro yng nghefn y llwyfan. Un neu ddau ohonynt yn llawer rhy nerfus i wenu ar y ffotograffydd!*



*Allan am dipyn o awyr iach ac ymarfer cyn cystadleuaeth yr offeryn. Adroddiad llawn o'r Eisteddfod yng ngholofn Llanrug.*

## Y DDAU RIFYN NESA'

**Cofiwch mai rhifynnau'r hysbysebion a'r cyfarchion yn bennaf yw'r ddau Eco sy'n dod o'r wasg o fewn pythefnos i'w gilydd ym mis Rhagfyr. Os ydych mewn busnes ac yn dymuno diolch i bobl y fro am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn a aeth heibio – yna, defnyddiwch Eco'r Wyddfa – mae dros 2,500 o bobl yn ei ddarllen!**

**Cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion neu â'r golygyddion am fanylion.**

## AIL ORAU DRWY WLEDYDD PRYDAIN



*Llongyfarchiadau i Clifford Williams, Awelon, Llanrug, rheolwr siop Curry's Caernarfon ac i'w holl staff ar ennill yr anrhydedd o fod yn ail gangen orau o holl siopau'r cwmni drwy'r Ynysoedd Prydeinig. Asesiwyd bob un o'r 520 cangen o eiddo Curry's.*

*Fel arwydd o bwysigrwydd y digwyddiad yng ngolwg y cwmni daeth Alan Curry ei hun i longyfarch Clifford a'r staff ac i ddathlu'r achlysur gyda nhw.*

*Yn y llun mae Alan Curry yn cyflwyno wats aur i Clifford Williams. Mae llun arall ar dudalen newyddion Llanrug.*

## CYNGOR CYMDEITHAS YN DANGOS Y FFORDD

Llongyfarchiadau calonog i Gyngor Cymdeithas Llanberis a Nant Peris ar eu penderfyniad yn eu cyfarfod diwethaf i gyfrannu £100 tuag at gronfa yr anghennus yn Ethiopia. Nid ydym yn gwybod, (a'r Eco ar fin mynd i'r Wasg), am unrhyw gyngor arall boed gymdeithas, dosbarth neu sir sydd wedi gwneud yn yr un modd.

Mae'r Cyngor wedi trefnu y bydd **Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis yn agored o 9 a.m. hyd 5 p.m. ddydd Sadwrn, Tachwedd 3** gyda'r bwriad o roi cyfle i bobl y pentref fynd yno i gyfrannu at yr achos. Felly, dewch yn llu, bydd ychydig geiniogau o gymorth mawr.

Trefnodd y cyngor hefyd i agor **y festri yn Nant Peris** fel y gall trigolion y pentref ddod â'u rhoddion. Bydd y festri'n agored am ddwyawr rhwng **10 a hanner dydd.**

## LLAIS I'R IFANC

Hei, 'dach chi eisio gwybod rhywbeth am glwb ieuenctid mewn pentref yn ardal yr Eco?
– 'Dach chi eisiau darllen tair cerdd fach gan rai o feirdd y dyfodol?
– 'Dach chi eisiau gwybod sut aeth pethau mewn noson o adloniant ysgafn yng Nghaernarfon?

Nag 'dach? Wel peidiwch a throi i'r tudalennau canol y rhifyn hwn 'ta.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 97**
**TACHWEDD 1984**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION**: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 77163). Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG**: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**NANT PERIS**: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN**: Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU**: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)


**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**TACHWEDD 29**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH TACHWEDD 20**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## ATGOFION AM EIN LLENORION

*Annwyl Olygydd,*

*Hoffwn wneud apêl drwy gyfrwng eich papur bro am gymorth i gasglu atgofion am nifer o lenorion amlwg Cymru oedd yn caelodau cynnar o'r Academi Gymreig.*

*Ein bwriad yw casglu gwybodaeth ar dâp, darluniau, llythyrau ac unrhyw eitem arall a allai'n helpu i lunio portreadau cyflawn o'r awduron canlynol:*

*D. Gwenallt Jones*
*Aneirin T. Davies*
*Waldo Williams*
*D.J. Williams*
*Griffith John Williams*
*T.H. Parry-Williams*
*Tegla Davies*
*Iorwerth Peate*
*D. Myrddin Lloyd*
*Huw Llywelyn Williams*
*Huw Lloyd Edwards*
*Caradog Prichard*
*R. Bryn Williams*
*Hugh Bevan*

*Os oes gan unrhyw ddarllenydd wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ni, buaswn yn falch iawn o glywed ganddo. Gellir cysylltu â ni yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio Aberystwyth 617616. Gall atgofion personol, waeth pa mor ddibwys yn eich golwg chi, fod o gymorth mawr i'r cynllun.*

*Yn gywir,*
*Helen Prosser*
*Adran Efrydiau Allanol*
*9 Glan y Môr*
*Aberystwyth*

## FFYNNON CEGIN ARTHUR

*Annwyl Olygydd,*

*Yn 'Eco'r Wyddfa' mis Medi mae C.D. Williams, Penisarwaun yn holi pwy oedd trigolion olaf hen dŷ Ffynnon Cegin. Morris Evans a'i fab, David Arthur Evans oedd y rhai olaf o'r hen deulu a fu'n byw yno. Wedi hynny cymerodd rhyw Sais brydles ar y lle gan ystad y Faenol ac aeth ati i geisio ehangu'r ffynnon a bu iddo ei difetha ac fe sychodd.*

*Coedwig fawn yw'r lle i gyd heddiw, ac mae olion hen ffordd trwy'r goedwig ac i fyny trwy dir Blaencae, hynny yw, pan oedd Blaencae Isaf a Blaencae Uchaf yn un fferm cyn i ystad y Faenol wneud ffordd i fyny i'r chwarel.*

*Roedd y ffordd drwy dir Blaencae yn mynd i fyny ar hyd ochr Foel Rhiwen ac i Fawnog y Gof o'r lle y byddai'r hen drigolion yn cario mawn ar gefnau mulod i'r Clwb Mawn (Turf Square), Caernarfon i'w werthu.*

*R. Jones,*
*Llanddeiniolen.*

## YMGYRCH GENEDLAETHOL SEFYDLIAD Y GALON CANGEN CAERNARFON A'R CYLCH

**Hoffai'r pwyllgor uchod ddiolch yn fawr i bobl yr ardal am eu haelioni yn ystod misoedd yr haf.**

Cynhaliwyd Te Mefys, gydag ychydig stondinau yng ngardd Mr Wyn Stephens, Llanwnda (Trysorydd y Gangen) ar Gorffennaf 12 a chafwyd noson hwyliog iawn a ddaeth ag elw o £179.79.

Penderfynodd Mr Stephen hefyd gymryd rhan mewn ymgyrch noddi colli pwysau gyda'r elw yn mynd tuag at y Sefydliad – cyrhaeddodd y nod a chafwyd £167 i'r gronfa.

Llawer o ddiolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn y casgliad o dŷ i dŷ yn ystod mis Mehefin yn gyfranwyr ac yn gefnogwyr.

Daeth yr apêl yma ag elw o £1,090. Bydd gweithgareddau'r gaeaf yn dechrau gyda Noson Goffi yng Ngwesty'r Royal yng Nghaernarfon ar nos Fawrth, Tachwedd 20 – croeso cynnes i bawb.

Os am gardiau Nadolig er budd y mudiad cysyllter â Mrs Mai Parry, Bryn Heli, Llanrug. Rhif ffôn Caernarfon 4385.


Os am noson o hwyl, mynnwch Cwmni Drama Llanberis yn perfformio'r gomedi
**'CHWALU'R NYTH'**
**gan John Elis Williams**
Am fanylion pellach, cysylltwch â Miss Rhiannon Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis, Gwynedd LL55 4HN
Ffôn: (0286) 871231



**AR WERTH**

VOLKSWAGEN Golf GLS 1981 (X). Cyflwr da. Rheswm da dros ei werthu. Ffoniwch Caernarfon 5605.

Beic ar gyfer merch 6-8 oed. £25. Hefyd pram i ddoli. £3. Ffôn: Llanberis 872516.

20 cadair bren. Addas ar gyfer neuadd neu debyg. Pris i'w drafod. Caernarfon 4985.



AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath o gynnyrch coed ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**


## RIGOR MORTIS
## Cynhyrchiad Diweddaraf Bara Caws

Fyddwch chi yn meddwl am hen ffrindiau weithiau – eneidiau hoff cytûn na welsoch ers pum, deg, ugain mlynedd – breuddwydio am eu cyfarfod i gyd eto, adnewyddu cyfeillgarwch ac atgofion melys am y dyddiau a fu?

Dyna oedd breuddwyd Zelda Lyons May Jones pan wahoddodd ei hen ffrindiau coleg i ynys bellenig yn yr Outer Hebredies ... ond a oedd cyfarfod ar ôl cymaint o amser yn syniad da? ... a drodd y freuddwyd yn hunllef ...?

Beth oedd eu perthynas â'i gilydd bellach ... y cenedlaetholwr Arwyn Jones oedd erbyn hyn yn ddarlithydd coleg, Howard Jones – sosialydd a llyfrwerthwr, Ffred Jarvis – digrifwr a oedd yn enwog ledled Prydain, Bronwen James – merch annwyl ddiniwed a arferai fod yn ffefryn pawb, a Zelda oedd wedi gwahanu efo'i gŵr?

Pwy ydi Catrin Eluned a Ted Eskin? Pa fudiad newydd sydd rŵan ar droed trwy Gymru gyfan? Mae'r sefyllfa yn un ryfedd – ddirgel, ond mae modd i chi lethu eich chwilfrydedd a chael atebion i'r cwestiynau hyn oll mewn noson efo Theatr Bara Caws a Rigormortis.

Mae'r actorion yn cynnwys Cefin Roberts, Judith Humphreys, Bryn Fôn, Siwan Jones a Dewi Rhys. Valmai Jones sy'n gyfrifol am y gwaith cyfarwyddo felly oes angen dweud mwy! ... Un peth bach efallai ... os ydych chi'n berson nerfus, gwan galon neu o dan 8 oed ... peidiwch â dod!

**Ond, o ddifri – cofiwch ddod i Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Iau, Rhagfyr 6, erbyn 7.30. Dyma'r unig fan ble ceir perfformiad yn ardal yr Eco. Pris tocynnau £1.00, plant a phensiynwyr 50c. Am ragor o fanylion cysylltwch â Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug, Caernarfon 4839.**

## DRAENOG



**Dydi pobl yn gwneud petha' gwirion pan maen nhw mewn dipyn o frys, dudwch? Dyna chi'r ffermwr lleol oedd ar gymaint o ras un bore i gychwyn i arwerthiant meheryn yn yr Alban. Be' wnaeth o? Dim llai na phacio dillad isa' EI WRAIG yn ei gês! Yn y gwesty yn y wlad bell y sylweddolodd fod ganddo siâp reit od ar ei fest ai drons glân!**
**Dipyn o flwmyr, ddwedwn i.**

DYDDIADAU I'W COFIO

RHAGFYR 6 – Deiniolen. Gwasanaeth 'Christingle' gydag eitemau gan Seindorf Arian Deiniolen ac Ifan Bryn Roberts a'r genod yn Eglwys Crist Llandinorwig am 7.00.
RHAGFYR 6 – Ffair Nadolig Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr, Llanrug.
RHAGFYR 7 – Ffair Nadolig Cangen Plaid Cymru, Waunfawr.


MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

# LLYWYDD CENEDLAETHOL MERCHED Y WAWR

**Yn ystod penwythnos preswyl blynyddol Merched y Wawr yn Aberystwyth yn ddiweddar, dechreuodd Mrs Eirlys Peris Davies, Glanafon, Trefdraeth, ar dymor o ddwy flynedd fel llywydd cenedlaethol Merched y wawr.**

Ganwyd Eirlys yn Llanberis, lle'r oedd ei thad, Ben Owen, yn weinidog gyda'r Annibynwyr. Symudodd y teulu i ardal Castell Newydd Emlyn yn 1944. Addysgwyd Eirlys yn Usgol Dolbadarn, Llanberis, Ysgol Sir Brynrefail, ac Ysgol Uwchradd Aberteifi cyn mynd i Goleg Hyfforddi Abertawe. Yna bu'n athrawes yng Nghrymych, ardal enedigol ei rhieni, cyn priodi â Geraint Davies – brodor o Nantgaredig, Pennaeth Adran Gymraeg, Ysgol Uwchradd Abergwaun.

Mae ganddynt bedair o ferched, Nia sy'n nyrs yn Ysbyty Cenedlaethol Chicago yn Dubai; Gwenno sy'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd a Non, disgybl yn Ysgol Heol Goffa Llanelli.

Enynnwyd diddordeb Eirlys yn yr anabl pan anwyd ei phedwaredd merch yn dioddef o 'Down's Syndrome'. Dilynodd gwrs blwyddyn yng Ngholeg Addysg y Barri er mwyn ennill cymhwyster i ddysgu'r anabl a thrwy ei hymdrechion sefydlwyd Unedau i ddysgwyr araf yn Abergwaun a Chrymych ac i blant anabl Cymraeg yn Eglwyswen.

Enillodd Ysgoloriaeth Rotari byd-eang i athrawon plant anabl a threuliodd saith mis yn 1980 ym Mhrifysgol Guelph, Ontario, Canada yn astudio ffyrdd o ddysgu'r anabl yno. Hi a symbylodd sefydlu Is-bwyllgor Plant dan Anfantais Merched y Wawr a bu'n Ysgrifennydd Cenedlaethol y pwyllgor. Newidwyd yr Is-bwyllgor hwnnw ym Mlwyddyn yr Anabl i Is-bwyllgor yr Anabl, sy'n cynnwys plant a phobl o bob oed, sy'n dioddef o unrhyw anabledd a achoswyd oherwydd afiechyd neu henaint ac Eirlys oedd Llywydd Cenedlaethol y pwyllgor hwnnw.

Bu'n llywqydd ac ysgrifennydd adloniant cangen Ffynnongroes ac



yn ystod ei blwyddyn fel Llywydd Pwyllgor Rhanbarth Preseli a Deau Penfro, sefydlwyd nifer o ganghennau newydd, un ohonynt yn Nhrefdraeth, a hi oedd y llywydd cyntaf. Bu'n llywydd ar Bwyllgor Sir Dyfed ac am y ddwy flynedd ddiwethaf bu'n Is-lywydd Cenedlaethol.

Gelwir arni'n aml i annerch gwahanol gymdeithasau, a'i hoff destunau ar hyn o bryd yw hanes y cyfnod a dreuliodd yng ngwlad yr Esgimo i'r Gogledd o'r Cylch Arctig a'r gwyliau a dreuliodd droeon gyda'r Gwawr yn y Dwyrain Canol.

Ymwelodd â'r India yn ystod gwyliau'r Pasg eleni. Mae'n aelod arall y cymer ddiddordeb mawr ynddo yw Mudiad Ysgolion Meithrin. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Cenedlaethol, yn Gadeirydd Pwyllgor Sir Benfro ac yn drysorydd Pwyllgor Dyfed. Heblaw hyn, hi sy'n bennaf gyfrifol am sefydlu'r ysgolion Meithrin sydd yn Rhanbarth Preseli a Deau Penfro. Yn ddiweddar, fe'i dewiswyd yn Ysgrifennydd Pwyllgor Adrodd Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun a'r Fro ac y mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Llên.

Dymuna'i holl ffrindiau ledled Cymru bob rhwyddineb i Eirlys yn y swydd bwysig hon.

# RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

**£5:** Eluned Jones, Mochdre, Bae Colwyn.

**£3:** Elfed a Carys Morris, Rallt Goch, Ceunant, Llanberis; Di-enw, Llanberis; Mr a Mrs Renell Williams, Dinorwig; Mrs Heulwen Williams, Glanmoelyn, Llanrug; Mr a Mrs A. Wyn Rowlands, Rhydfadog, Deiniolen, Mr a Mrs Tecwyn Williams, Pentre Helen, Deiniolen.

**£2:** Gillian a Gwyn Ellis Jones, Rhostryfan; Mrs M. Hughes, Stryd Newton, Llanberis; Di-enw, Llanberis; Mrs M.A. Jones, Maes Eilian, Dinorwig; Mrs Irene Morris, Maes Eilian, Dinorwig.

**£1:** Shân a Ceri, Blaen Parc, Bethel; Mr a Mrs N. Thorman Jones, Tai Caradog, Deiniolen; Mary Morris, Pentre Helen, Deiniolen; Miss Sandra Baum, Y Ffôr, Pwllheli; Mr a Mrs G. Huws, Ty'n-y-weirglodd, Deiniolen.

**CERDD AMSEROL**

**TACHWEDD YR UNFED AR DDEG**

**Marciau gwaed y glotiau**
**ar freichiau crin y wig,**
**dolur ar bob deilen**
**a briwiau ar bob brig.**

**Bu'n frwydr erchyll neithiwr,**
**y gwynt yng ngwddw'r glaw;**
**mae'r dail fel catrawd glwyfus**
**yn gorwedd yn y baw.**

**Dristed yw marc y creithiau**
**ar freichiau noeth y wig,**
**lle doe bu dail dolurus**
**yn gwaedu ar bob brig.**

**SELWYN GRIFFITH**
*(allan o C'nafron a Cherddi Eraill — Gwasg Gwynedd)*

# *Yn Eisiau — Gwirfoddolwyr i'r Cynllun Modryb ac Ewythr*

**Mewn cyfarfod diweddar o Is-bwyllgor Iechyd Meddwl Cyngor Sir Gwynedd, datgelwyd i'r aelodau fod y Cynllun Modryb ac Ewythr, sy'n cael ei weithredu gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, yn dod yn ei flaen yn dda, ond fod anawsterau'n codi oherwydd prinder o wirfoddolwyr i gymryd rhan yn y cynllun, ac yn enwedig, prinder o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith.**

**Mae'r cynllun, sy'n cael ei weithredu gyda chymorth ariannol oddi wrth Awdurdod Iechyd Gwynedd, yn bodoli i roi gofal seibiant i blant dan anfantais feddyliol efo teuluoedd eraill. Bu'n gweithio'n llwyddiannus ym Môn ac Arfon ers peth amser, ac ni chododd unrhyw anhawster ynglŷn â gwirfoddolwyr hyd nes yr ymestynnwyd y cynllun i weddill Gwynedd.**

**'Mae'n rhaid i ni gael mwy o wirfoddolwyr, yn enwedig rhai Cymraeg eu hiaith,' meddai John Allam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Iechyd Meddwl yn yr Adran. 'Mae'n gynllun da, ond nid yw'n deg ar blant dan anfantais feddyliol Cymraeg eu hiaith orfod treulio eu gofal seibiant efo teuluoedd uniaith Saesneg, neu mewn cartref yn perthyn i'r Cyngor, er bod eu safonau'n uchel iawn.'**

**Ymbiliodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor, y Cynghorydd R. Gwynedd Roberts, ar i unrhywun a hoffai gymryd rhan yn y cynllun i gysylltu efo'i Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol, er mwyn i'r holl blant dan anfantais feddyliol yng Ngwynedd fanteisio ar y cynllun.**

# COF AM WESTY GLAN EILIAN

Mae'r cof cynta sydd gen i am Glan Eilian yn mynd yn ôl i 1910 (ganwyd fi yn 1906). 'Rwy'n cofio rhedeg yno i chwarae ar y siglen yn y cefn a chael gellyg oddi ar y goeden. Fel Mr a Mrs Morris Rowlands, Bee Hive – brawd i fy nhad oedd Mr H. Rowlands, Fy modryb oedd yn gofalu am Glan Eilian 'Private Hotel' a fy ewythr yn gofalu am siop 'draper' Bee Hive. Ganwyd iddynt saith o blant, 6 bachgen ac un geneth ac mae Netta, Huw a Selwyn yn fyw o hyd.

Roedd Glan Eilian yn llawn o ymwelwyr o'r Pasg hyd Hydref. Llawer iawn o efrydwyr o Crewe yn dod drwy wyliau'r haf yn eu tro flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bu farw Mr Morris Rowlands a gadael saith o blant, yr hynaf yn 12 blwydd a'r ieuengaf yn 5 mis oed.

Rhentodd Mrs Rowlands Bee Hive y siop groser i Mr R. Lloyd Thomas ac ar ei ymddeoliad gwerthodd Mrs Rowlands yr holl adeilad, Glan Eilian a Bee Hive i Mr a Mrs William Jones, ac maent wedi ymddeol eleni ar ôl blynyddoedd hapus. Mae'r lle ar werth ar hyn o bryd a chwith ei weld yn wag. Fel Bee Hive yr adwaenid y lle pan oeddwn yn ifanc ond yn ddiweddar fel 'Siop Wil' Padarn Stores, yn y blynyddoedd cynnar fel 'Yr Hen Bost' yr adwaenid y lle.

## MAE PAWB YN DARLLEN YR ECO!



*Mae 'na greaduriaid rhyfedd yn darllen Eco'r Wyddfa'r dyddiau yma. A barnu oddi wrth y golwg ar un gornel o'r papur — mae'n amlwg fod yr hen geiliog yn cael blas arno hefyd!*

## *MEDDAI BRYAN ROBSON...*



# LLANBERIS

**Gohebydd: Miss Jane Morris, 3 Pen y Bont (Llanberis 871561)**



CROESO: Croesawyd Glyn Meirion Morris a'i briod adref am wyliau i'w hen ardal o'u cartref yn Florida, Yr Unol Daleithiau. Aros gyda chwaer Mr Morris oeddynt, sef Mrs Betty Jones, Plas Coch. Cyn symud i Florida buont yn trigo yn Detroit, Canada. Cawsant groeso mawr gan eu hen ffrindiau ac yr oeddynt yn falch iawn o'u gweld. Mwynhaodd y ddau eu gwyliau yn fawr iawn. Gobeithio y cawn weld y ddau adref yn fuan eto.

PRIODAS: Yn ystod y mis diwethaf priodwyd Gaerwen, merch Mr a Mrs Hugh Griffiths, 7 Llainwen Isaf â Kevin Wynne Rowlands, Deiniolen. Daeth oddeutu 70 o westeion i ddymuno'n dda iddynt. Cynhaliwyd y brecwast priodasol yng Ngwesty Dolbadarn. Byddant yn ymgartrefu yn 7 Stryd Ceunant.

Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r cwpwl ifanc.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jan Davies, Water Street ddiolch o galon i bawb am yr holl garedigrwydd ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd gartre.

Dymuna Miss Margaret Rees Jones, London House ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yr oedd yn yr ysbyty ac hefyd ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn ichi oll.

Dymuna Gillian a Gwyn, Bro Dawel, Rhostryfan ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar Fedi 8.

Dymuna Wendy, 1 Stryd-y-dŵr ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.



*Dyma lun Miss Rhiannon Pritchard yn cyflwyno tusw o flodau i'r wraig wadd, Miss Mat Pritchard, Caernarfon yn ystod cinio dathlu'r Cwmni yn ugain oed yng Ngwesty'r Afr ym Meddgelert.*

DIOLCH: Mae teulu Mr Robert Hughes a'r plant yn diolch o galon i bawb am eu rhoddion coffa i'w ddiweddar wraig, Mrs Hetty Hughes, 7 Charlotte Street. Rhoddwyd y swm o £200 i achos y nyrsus.

DECHRAU GYRFA: Dymuniadau da i Peter Glyn, mab Mr a Mrs W. Roberts, Bryn Villa, Rock Teras ar ddechrau ei yrfa fel prentis peiriannydd gyda'r Llu Awyr yn Lincoln. Bu Peter yn y Coleg Technegol Bangor am ddwy flynedd a chael cwrs llwyddiannus iawn yno ac er hynny bu'n lwcus iawn i fod mewn gwaith.

Bachgen dymunol a chymwynasgar iawn yw Peter ac yn boblogaidd gyda'r hen a'r ifanc. Dymuniad pawb o'r ardalwyr yw llwyddiant yn ei yrfa a phob hapusrwydd.

CLWB YR HENOED: Ar ddechrau'r mis trefnwyd Pwyllgor Blynyddol Clwb yr Henoed yn y Ganolfan dan lywyddiaeth y Cadeirydd, Mrs Meira B. Hughes.

Cyfeiriwyd at waeledd un o aelodau'r pwyllgor sef, Mrs Jan Davies, Stryd y Dŵr. Bu'n yr ysbyty yn derbyn triniaeth lawfeddygol ond mae wedi dychwelyd gartref erbyn hyn a dymunwyd adferiad llwyr iddi yn fuan.

Llongyfarchwyd Mrs Trevor Williams ar briodas ei merch Gillian. Derbyniwyd adroddiad y flwyddyn gan yr ysgrifenyddes Miss Annie Jones. Cafwyd adroddiad lawn a grymus iawn o weithrediadau'r flwyddyn. Collwyd amryw o'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, a chydymdeimlwyd â'r teuluoedd yn eu galar. Mae amryw o'r ardalwyr wedi cyrraedd oedran pensiwn a chroesewir pob aelod newydd i ymuno â'r clwb.

Darllenodd Mrs Gwyneth Clark y fantolen a da iawn oedd deall fod safle ariannol y clwb mor iach. Diolchodd y llywydd i'r ddwy am eu hadroddiadau trylwyr.

Bydd y pwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf yma yn paratoi ar gyfer y Ffair Nadolig a disgwylir cefnogaeth eto eleni fel yn y gorffennol.

PRIODASAU: Yng Nghapel Jerusalem, ar Fedi 22 priodwyd Debra, merch Mr a Mrs John Ellis, 7 Teras Efrog, ac Arwel Rees, mab Mr a Mrs Ieuan Roberts, Tŷ Capel Tabernacl, Porthmadog. Gwasanaethwyd gan y Parch Hugh John Hughes a'r Parch Isaac Jones (ewythr y briodferch) a'r organyddes ydoedd Gwyneth Jones, Y Llythyrdy. Darparwyd yr arlwy yng Ngwesty Goat Beddgelert a mwynhawyd y melrawd yn yr Eidal. Dymunir bob hapusrwydd i'r pâr ifanc a hir oes.

**Kevin ac Eurwen:** Yng Nghapel Jerusalem (Annibynwyr) ar Fedi 6 priodwyd Kevin L. Wynne, mab Mr a Mrs A.W. Rowlands, 7 Rhydfadog, Deiniolen ag Eurwen, merch Mr a Mrs Hugh Griffith, 7 Llainwen Isaf. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Hugh John Hughes a Mrs Helen Lewis wrth yr organ. Darparwyd yr arlwy yng Ngwesty Dolbadarn lle y daeth llu o gyfeillion ynghyd i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc. Maent wedi darparu cartrefu diddos a chlyd iawn yn Rhif 5 Stryd y ceunant.

Dymunir iddynt bopeth gorau mewn bywyd.

CASGLIAD ETHIOPIA: Casglwyd drwy'r Eglwysi lleol y swm anrhydeddus o £300 at Gronfa Ethiopia a mawr yw ein diolch i'r cyfeillion hynny a fu'n mynd o ddrws i ddrws i gasglu.

Y CARNIFAL: Yn ystod mis Medi cyfarfu Pwyllgor Blynyddol y Carnifal. Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd gan yr aelodau yn profi fod y Carnifal eleni wedi bod yn llwyddiant mawr, a dangoswyd mwy o ddiddordeb gan yr unigolyn trwy wisgo i fyny, ymgymryd â'r gwahanol ddiddordebau a llwyddo i wneud awyrgylch hapus a difyr ar y diwrnod.

Diolchir i'r ardalwyr a fu'n cyfrannu'n ariannol, drwy gyflwyno bwyd, cacennau, a gwobrau i'r Carnifal, ac hefyd diolchir yn bennaf i bawn a fu'n cefnogi'r Carnifal ar y diwrnod.

Y RHEDWYR IFANC: Unwaith eto daeth Paul a Linda Prydderch yn gyntaf yn Ras Redeg Llandudno ar Fedi 30.

YN GWELLA: Hapus iawn yw deall fod y cyfeillion sy'n wael yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi erbyn hyn yn gwella. Dymunir iddynt wir adferiad yn fuan iawn – Petula Williams, Stryd Newton, Griff Owen, Maes Padarn, William Williams, Melrose, Gwyneth Roberts, Stryd Newton, Margaret Rees Jones, London House, Hugh Owen, Dôl Eilian, E. Owen, Lôn Tŷ Du, Maggien Price, Stryd Siarlot, Mrs Martin Owen, Gwynfron, Stryd Newton, Mrs Sali Jones, 3 Field Teras, Mrs Betty Evans, Minafon Teras, Mr Wilbert Davies, Rock Teras, Mrs Annie Jane Roberts, Olgra Teras, Miss Cheryl Williams, Rock Teras, Mr Will Williams, No 1 Bethesda Street, Mrs Dorothy Williams, Vaynol Cottages. Yn Ysbyty Gwynedd y mae Iorwerth Prydderch, 7 Stryd Goodman, Llew Batten, Maes Padarn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Betty Humphreys, Nant Peris. Estynnwyd cydymdeimlad â'r aelodau canlynol yn eu profedigaeth o godi modryb; Mrs Martha Hughes a Mrs Megan Hughes. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Jan Davies.

Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Miss Eleanor Roberts, Bontnewydd ar ei gwaith fel ditectif yn un o siopau mawr Llundain. Un o blant yr ardal yw Miss Roberts, wedi ei geni a'i magu yn yr ardal. Pan oedd y plant yn ei chartref yn ifanc iawn symudodd y teulu oddi yma. Dymunwyd iddi amser difyr yn ei horiau hamdden.

Darparwyd y te gan Mrs Nan Owen, Mrs Peris Thomas, Mrs Helen Morris. Diolchwyd i Miss Roberts a'r aelodau fu'n paratoi'r lluniaeth gan Mrs Dwynwen Roberts, gyda Mrs Annie Mary Evans yn eilio.

PROFEDIGAETH: **Margaret Jane Thomas:** Ar Hydref 26 yng Nghartref Pen Gwaith bu farw Mrs Margaret Jane Thomas, 75 Maes Padarn, yn 84 mlwydd oed. Eto, dyma un o gymeriadau mwyaf dymunol y pentref. I'r rhan fwyaf ohono (er yn blant) Anti Meggs oedd hi – mewn gwirionedd roedd yn 'Anti' i bawb o'r plant. Fe'i ganed yn yr ardal yn un o deulu mawr, bu fyw ei holl fywyd yma, wedi gwneud ei rhan yn gymdogol a charedig ar hyd ei hoes. Un o'r nodweddion amlycaf ydoedd ei sirioldeb bob amser. Byddai ei gwên hela ymaith bob anhawster ac iselder. Gwnaeth ddiwrnod da o waith gonest tra gallai – ac ar ddiwedd ei gyrfa cafodd gymorth a charedigrwydd ei phriod a'i theulu fel yr haeddai. Ni welir cymeriadau o radd 'Anti Meggs' yn codi yn ein hardal heddiw ysywaeth. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parch Alun J. Hawkins yn gwasanaethu, a chladdwyd ei gweddillion ym

## EI FEDYDD CYNTAF



*Bedydd cyntaf y rheithor newydd, y Parch Alun Hawkins yn Eglwys St Padarn fore Sul, Hydref 7. Daniel, mab Mr a Mrs Michael Roberts, Stryd y Dŵr.*

Y Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

*Ffôn: LLANBERIS 871 278*

(Danny a Nerys Roberts)

**Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta**

## LLANBERIS (parhad)

mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i phriod T.O. Thomas, William Roberts, mab, a Jean ei briod, hefyd yr wyrion yn eu profedigaeth.

UNDEB Y MAMAU: Yn y 'Church House' cynhaliwyd y cyfarfod misol dan lywyddiaeth y Parch Alun J. Hawkins, a mwynhawyd araith ddifyr ganddo ar Abaty Westminster. Diolchwyd iddo ac i'r merched fu'n gwneud y lluniaeth, gan Mrs Ella Handle, gyda Mrs Deaness Hughes yn eilio'r diolchiadau. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs D.A. Parry. Mrs Nellie Roberts, Mrs Dorothy Williams a Mrs Betty Humphreys. Llongyfarchwyd Miss Bessie Roberts, BA ar gyrraedd ei 80 mlwydd.

CLWB Y MAMAU IFAINC: Yn y Ganolfan ar Medi 19 daeth cynulliad da ynghyd i Sioe Ffasiwn Ddilladau. Dangoswyd dillad golygus iawn, gydag amrywiaeth o bob lliw a llun. Dewiswyd y gwisgoedd i'r genethod eu gwisgo gan berchennog y siop newydd sydd wedi agor ers ychydig fisoedd sef, 'Siop Maxelle's'. Yn wir, nid oes angen i neb deithio i Fangor, neu Landudno neu Gaer i chwilio am y ffasiwn diweddaraf, mae'r cyfan i'w cael yn 'Maxelle's – ar garreg y drws i ni.

ORIEL ERYRI: Mae tymor y gaeaf wedi agor eto eleni gyda chwrs a darlithiau gan Mrs Eluned Bebb Jones, BSc. Bydd yn ymdroi ym myd Natur, testun sydd wedi denu amryw i'w astudio.

CODI ARIAN: Llongyfarchiadau i bobl ifainc Capel Coch am eu hymdrech ardderchog gyda Noson Goffi i godi bron i £200 tuag at welliannau yn y capel. Cafodd y noson gefnogaeth wych – a diolchwyd i bawb gan y gweinidog.

CLWB ERYRI: Yng Ngwesty'r Gwynedd y nos Wener cyntaf o'r mis dechreuodd Clwb Eryri ar waith y tymor. Mwynhawyd araith ddifyr a doniol gan y llywydd newydd, Mr John Roberts Williams, Llanrug. Y cadeirydd oedd y Dr R.S. Williams, Waunfawr.

I'R COLEG: Estynnir dymuniadau da a phob llwyddiant i'r oll o'r plant sydd wedi dechrau ar eu gyrfa yn y gwahanol golegau, i Bethan Hughes, Beech Bank sydd wedi mynd i Brifysgol Nottingham; Rhian Owen, Stryd Siarlot sydd wedi mynd i Goleg Celf a Drama yng Nghaerdydd; Ian Edwards, Maes Padarn; Ffiona Jones Stryd Newton; Rhiannon Pritchard, Stryd Newton; Melanie Sellars, Dôl Elidir; Hugh Harris, Stryd Goodman – yr oll wedi mynd i'r Coleg Technegol, Bangor.

CLWB METHEDIG ERYRI: Er bod y noson wedi bod yn dra siomedig oherwydd y tywydd – roedd aelodau o Glwb Methedig Eryri wedi paratoi ar gyfer Noson Goffi yn y ganolfan ond ni chafwyd cynulliad da. Eto i gyd fe wnaed elw o £130.

Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

Y DIOLCHGARWCH: Fel arfer roedd Eglwys Sant Padarn wedi ei haddurno'n fendigedig erbyn Gŵyl y Diolch, ac roedd ôl gweithgarwch mawr ymysg gwragedd yr eglwys i gael y fath wledd i'r llygaid. Yn ystod yr Ŵyl cafwyd gwasanaethau gyda'r Parch E.P. Edwards, Glanadda, Bangor. Y Parch Dilwyn Carey Roberts, Rheithor, Llanllechid, a'r Parch Ronald Keating, Ficer Llandudno.

Cafwyd gwasanaethau hefyd yng Nghapel Coch, Jerusalem a Nant Padarn, a'r plant yn amlygu eu hunain yn yr oll o'r cyfarfodydd.

Trefnwyd y gwasanaethau i'r plant gan athrawon yr Ysgol Sul.

CYMRY BACH NEWYDD: Yn ystod y mis a aeth heibio bu llawenydd mawr ym Mryn Celyn, Rallt Goch, pan gafodd Carys a Keith ferch fach ai henw yw Sara Louise. Wedi gwirioni yn lân y mae nain hefyd – Mrs June Williams, 6 Maes Padarn.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Appie Jones, Stryd Turner ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch, Nia Meleri, i Meira a Gareth sy'n byw yn y De.

Ein llongyfarchiadau i Carys ac Elfed Morris, 2 Rallt Goch, Ceunant ar enedigaeth efeilliaid, dau fab, Owain a Rhys, wyrion cyntaf i Gwilym ac Olwena Morris.

Dymuna Elfed a Carys ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Owain a Rhys.

TRIP I BLACKPOOL: Un bore Sadwrn bu cyffro mawr – roedd rhaid codi yn fore i ddal y bws i fynd i Blackpool. Dyna oedd hanes bechgyn a genethod sy'n perthyn i Frigad St John Ambulance y pentre. Aeth y Swyddogion a'r plant am ddiwrnod i weld y goleuadau yn Blackpool. Cafwyd diwrnod bendigedig a phawb yn cyrraedd gartref yn saff ond wedi blino yn arw.

Dymuna'r rhieni ddiolch i'r swyddogion am drefnu'r diwrnod yma i'r plant, ac am ofalu amdanynt yn ystod y dydd.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Norman Jones, Aylwin, Lôn Capel Coch ar golli ei brawd yn sydyn iawn. Roedd yn Gyfarwyddwr Addysg, Manceinion, ac yn edrych ymlaen at ei ymddeoliad y flwyddyn nesaf.

YSGOL DOLBADARN: **Ffarwelio:** Ym Medi ffarweliwyd â Hugh a'i frawd Liam O'Donnell gan fod y teulu yn mynd am dair blynedd i Singapore. Hefyd hithau Lucy Handy sydd wedi mynd yn ôl i Ddyfnaint i fyw.

**Estyn Croeso** : Balch iawn ydym o estyn croeso i Crispin ac Oliver Hawkins i'r Ysgol o Ysgol Pencae Penmaenmawr. Mawr hyderwn y byddant yn hapus yn Ysgol Dolbadarn. Plant yw Crispin ac Oliver i'r Parch a Mrs A.J. Hawkins, Rheithor y Plwyf. Croeso hefyd i Shôn yn ôl o Sri Lanka.

**Gwael:** Drwg yw gennym ddeall fod Mr W.O. Davies, Gofalwr yr Ysgol yn wael. Dymunwn iddo wellhad buan.

**Wedi Gwella:** Balch ydym o weld Mrs Gwendoline Hughes, Athrawes Dosbarth 1 yn ôl wrth ei gwaith yn dilyn triniaeth lawfeddygol.

**Yr ydym yn estyn croeso i:** Mr W.J. Pitts, fel gofalwr llawn-amser tros dro i'r Ysgol. Y mae ef yn llenwi'r bwlch oherwydd gwaeledd Mr W.O. Davies.

**Ceiniog i Cadi:** Ar ddydd Gwener, Medi 21 daeth Cwmni Theatr Mewn Addysg i'r Ysgol i berfformio'r ddrama 'Ceiniog i Cadi', i blant Safon 1 a 2. Yn ystod y ddrama yr oedd y plant eu hunain yn cael y cyfle i actio ac i wneud penderfyniadau. Caed bore bendithiol tros ben ac yr oedd y plant wedi llwyr fwynhau eu hunain.

**Ymgyrch Lyfrau Cymraeg 1984:** Yn dilyn llwyddiant yr Ysgol o berthynas i'r Ymgyrch Lyfrau cafodd Miss Jane Morris, Trefnydd yr Ymgyrch yn yr Ysgol, fynd ar benwythnos i Ddulyn.

Gwasanaeth Diolchgarwch: Ar fore dydd Gwener, Hydref 19 cynhaliwyd Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn yr Ysgol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan bob un plentyn ac fe gaed cyfarfod graenus a buddiol tros ben.

**Chwaraeon: Pêl-rwyd:** Aeth y tîm pêl-rwyd i chwarae gêm gyntaf y gynghrair i Ysgol yr Hendre ar ddydd Iau, Hydref 11. Y sgôr oedd Ysgol Dolbadarn 11 pwynt, Ysgol yr Hendre 5 pwynt. Llongyfarchiadau i'r genethod ac hefyd i Mrs Eirlys Pierce sydd yn eu hyfforddi. Aelodau'r tîm oedd Lynda Prydderch (Capten), Miriam Thomas, Michelle Willis, Annette Sellars, Michelle Carr, Nicola Baylis a Ruth Cousins.

Pêl-droed: Cafwyd gêm gyfartal yn y gêm gynta'r tymor newydd rhwng bechgyn Ysgol Dolbadarn a bechgyn Ysgol yr Hendre ar ddydd Iau, Hydref 11. Ar ôl gêm gyffrous iawn un gôl yr un oedd y canlyniad. Sgoriwyd gôl i Ysgol Dolbadarn gan Kevin Edwards y capten. Aelodau'r tîm oedd Alan Wyn Prithcard, Edward Rogers, Tristan Rees, Llifon Coulkes, Colin Griffiths, Steven Lloyd, Geraint Evans, Arfon Owen, Kevin Edwards, (capten), Ian Hughes, Cai Williams. Eilyddion Alun Baylis, Eilian Roberts, Shane Price.

Llongyfarchiadau i'r hogiau ac hefyd i Mr Teifion Thomas am eu hyfforddi.

**Llwyddiant dau bêl-droediwr:** Bu Ian Lloyd Hughes yn llwyddiannus drwy ennill Medal Ddu 'Coca Cola Super Skill'. Enillodd Cai Lloyd Williams y Fedal Las. Llongyfarchiadau fechgyn!

**Hysbysiad:** Cofiwch am y Noson Goffi a Ffair Gaeaf ar **nos Wener, Tachwedd 16 am 7 p.m.** Digon o fargeinion, rafflau ac i goroni'r cyfan y mae Siôn Corn wedi addo talu ymweliad yn ystod y noson. felly dowch yn lluoedd yn bobl a phlant. Y mae'r noson er budd Cronfa Ariannol yr Ysgol.

DIOLCH: Dymuna Garry Wakeham, Stryd Newton ddiolch i'w deulu, perthnasau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob llwyddiant iddo hefyd ar ei yrfa newydd yn yr R.A.F. Bydd yn dechrau ar Tachwedd 14.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Martin Owen a Mrs Jan Davies. Y wraig wadd oedd Mrs Betty Marshall, Llandegai, yn dangos sleidiau o Goleg Denman, a rhoddi hanes y Coleg o'i ddechreuad a'r gweithgareddau a geir yno. Diolchwyd iddi, ac i'r gwestwragedd, gan Mrs Dilys Jones a Mrs M.E. Owen. Y gwestwragedd oedd Mrs Jean Elis, Mrs Betty Humphreys a Mrs Ray Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Marshall.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwyneth ac Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab, Ioan Llwyd (eu mab) i Arwel ac Alice sy'n byw ym Mhenygroes.

DIOLCH: Dymuna Mrs Meira Pitts, Tŷ Capel Coch ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a chymdogion am y llu anrhegion ac am yr holl gardiau. Carai ddiolch yn fawr i'r llawfeddygon yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

## CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS A'R NANT

Cyfarfod a gynhaliwyd yn Angorfa nos Iau Hydref 25 dan arweiniad y Cadeirydd S.N. Hughes.

Trefnwyd cyfarfod gyda rheolwr cwmni Crosville Caernarfon i drafod gwasanaeth bwsiau yn Llanberis a Nant Peris.

Derbyniwyd datganiad oddi wrth y Cyngor Sir nad oes cynllun i wella y ffordd trwy Fwlch Llanberis yn ystod y tair blynedd nesa'. Wedi trafodaeth pasiwyd i anfon pryder y Cyngor ac i erfyn am i'r Cyngor Sir baratoi cynllun am y ffordd yma sydd cymaint o angen sylw.

Eglurodd y Clerc fod cynllun twtio yr hen fynwent ac o amgylch cartref Pengwaith wedi ei dderbyn gan gynllun NACRO ac y bydd y gwaith yn cychwyn yr wythnos gyntaf yn Nhachwedd.

CYNLLUNIO: Nid oedd gwrthwynebiad i Siop Castle Craft gael arwydd newydd, nac i Erw Fair godi toiledau newydd. Nid oedd gwrthwynebiad chwaith i gais i sefydlu canolfan gweithgareddau ieuenctid yn Bryn Du, Ffordd Tŷ Du, ond fod telerau amseru'r gweithgareddau yn cael eu gosod fel bo'r trigolion cyfagos yn cael llonyddwch a distawrwydd fin nos.

Wedi trafodaeth ar gais Cwmni Drama Llanberis am arian i'w cynorthwyo i ddatblygu hen Festri Capel Gorffwysfa er budd y gymdeithas, pasiwyd fod y Cyngor yn rhoi cyfraniad mewn egwyddor, ond fod yn gyntaf dderbyn cynllun manwl o'r costau a'r datblygiad a'u taflen ariannol.

Cytunwyd i roi £5,000 a oedd wedi ei brysebu amdano i'r Ganolfan Cymdeithasol ar gyfer gosod cynllun gwresogi canolog.

Pasiwyd i anfon at Gyngor Arfon i wneud pob peth yn eu gallu i orfodi perchnogion Gwesty'r Castle i ddod â'r adeilad i drefn unwaith eto.

Codwyd Tom Jones a Ken Jones fel ymddiriedolwyr ar gae chwarae Padarn Lake.

Pasiwyd i gyfrannu £100 tuag at gronfa Ethiopia, ac y bydd Angorfa, Stryd Ffynnon yn agored o 9 - 5 dydd Sadwrn, Tachwedd 3 i dderbyn rhoddion tuag at yr achos. Bydd cyfle i drigolion Nant Peris roi eu rhoddion o 10 - 12 yn Festri'r Capel.

Pasiwyd i ofyn i'r Cyngor Sir ail osod lliw olau melyn ar waelod Stryd Goodman.

Tynnwyd sylw'r Cyngor fod beudy Tŷ Coch, Nant Peris mewn cyflwr drwg, a pasiwyd i dynnu sylw Cyngor Arfon i'r mater.

## PRIF ARDDWYR LLANBERIS A'R FRO



*Mr Oliver Edwards (de) 93 Maes Padarn ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gerddi tai Cyngor Llanberis a Nant Peris. Gydag o mae Mrs I. Thomas, 89 Maes Padarn a ddaeth yn drydydd. Is-gadeirydd y Cyngor Cymdeithas, Mr Cledwyn Jones a Mr Mattieson, Prif Swyddog Tai Cyngor Arfon sy'n cyflwyno'r gwobrau iddynt. Mr Gwilym Jones, 88 Maes Padarn oedd yr ail yn y gystadleuaeth. Y beirniad oedd Mr R.T. Jones, Penygroes.*

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

DIOLCH: Dymuna Mrs Megan Williams, Gweledfa, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu cydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr. Hefyd diolch i'r meddyg teulu a staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal. Derbyniwyd rhoddion tuag at Gronfa'r Feddygfa Waunfawr.

Dymuna teulu'r diweddar Eric Williams ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Hefyd am yr holl gardiau a blodau a dderbyniwyd.

SEINDORF LLANRUG: Ar ddydd Sul Medi 23 yr oedd y Seindorf yn St Helens yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Burtenwood. Cafodd y Seindorf ail allan o 12 o gystadleuwyr gyda 187 pwynt. Y darn prawf oedd 'Les Preludes' a chanmolodd y beirniad y Seindorf yn uchel iawn am eu perfformiad o'r darn anodd yma.

Cynhaliwyd cystadleuaeth unawdau a phedwarawd blynyddol y Seindorf ar ddydd Sadwrn, Medi 29 yn yr Ysgol Gynradd. Y beirniad oedd Mr William Skelton a'r cyfeilyddion oedd Mrs Mair Hues, Mrs Carys Jones a Mrs Megan Roberts. Cyflwynodd Mr Ernest Burrows, Llywydd y Seindorf, y gwobrau i'r enillwyr.

Y canlyniadau oedd:
**Melodi araf dan 12:** 1. Kevin Tame, 2. Philip Owen, 3. Susie Jacobs. **Melodi araf dan 16:** 1. Dyfed Jones, 2. Sion W. Jones, 3. Gwyn B. Thomas. **Melodi araf – agored:** 1. Mr Glyn Hughes, 2. Miss Joan Hughes, 3. Mr Gareth Hughes. **'Air Varie' agored:** 1. Mr James Jones, 2. Mr Gareth Hughes, 3. Berwyn Owen. **Deuawd dan 16:** 1. Kevin Tame a David Jacobs. **Deuawd agored:** 1. Mr John tame a Kevin Tame. **Pedwarawd dan 16:** 1. Dyfed Jones, Alwyn Jones, Sian W. Jones, Berwyn Owen. **Pedwarawd agored:** 1. Wyn Williams, John Tame, Gareth Hughes, Glyn Hughes.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd Noson Goffi yng nghyfarfod diwethaf o Ferched y Wawr. Daeth cynulliad da yno i gael sgwrs a phrynu o'r amryw stondinau o gwmpas neuadd yr Ysgol Gynradd. Enillwyd un raffl gan Mrs Eirianwen Thomas, Bron y Nant a'r llall gan Mrs Jones, Bron Wylfa. Diolchodd y llywydd i staff y gegin am eu parodrwydd i'n cynorthwyo ni fel mudiad.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Tachwedd 13 pryd y disgwylir Guto Roberts yno i'n diddori. Anogwn hefyd yr aelodau i fynd ati a chyfansoddi tuag at Dalwrn y Beirdd ym mis Rhagfyr.

Y CARNIFAL: Nos Iau, Hydref 11 fe gynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Carnifal yn y Neuadd Goffa. Er nad oedd carnifal yn 1984, fe benderfynodd y rhai a oedd yn bresennol i godi pwyllgor ar gyfer trefnu carnifal 1985. Gresyn na fuasai fwy o ddiddordeb yn y pentref i drefnu carnifal, er hynny fe ddaeth 16 o bentrefwyr at ei gilydd. Swyddogion y pwyllgor fydd: Cadeirydd, Gareth Williams, 18 Rhos Rug, Is-gadeirydd, Merfyn Lloyd Jones, 54 Bro Rhyddallt, Trysorydd, Dafydd Arfon Jones, 3 Minffordd, Is-drysorydd, Morfydd Roberts, 1 Minffordd, Ysgrifennydd, Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Is-ysgrifennydd, Eirwen Williams, 1 Bryn Gro.

Y mae'r pwyllgor yn rhoi gwahoddiad i bensiynwyr y pentref ac ardal Tan-y-coed i swper Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 4 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Os am dderbyn y gwahoddiad, a fuasech yn gadael i'r pwyllgor wybod, trwy roi eich henwau ar y llyfr sydd yn Swyddfa'r Post.

Ar ddiwedd y cyfarfod fe daliwyd teyrnged i'r diweddar John Williams, Gweledfa a fu'n aelod ffyddlon o bwyllgor Carnifal Llanrug am amser maith. Cydymdeimlwyd â'i weddw, Mrs Megan Williams, a'r teulu oll.

GWELLHAD BUAN: Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Gwilym Williams, Penros, Mr Gwilym Owen, Glasgoed a Mr Orwig Roberts, Elidir View, Mr Derfel Gruffydd, Pennaeth yr Ysgol Gynradd a Mrs Jones, Lyndale sydd yn Ysbyty Gwynedd. Mae Mr J.G. Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd, Mrs Megan Williams, Gweledfa a Mrs Hughes-Jones, Sŵn y Gwynt wedi dychwelyd adref. Dymunwn adferiad buan iddynt hwythau ac i Mr Gwilym Parry, Morannedd ar ôl ei ddamwain.



*Len Roberts o Blaenau Ffestiniog a Beth Lewis Jones, merch ieuengaf Mr a Mrs Islwyn Lewis Jones, Y Garn, gynt o Tŷ'r Ysgol, Bethel a briodwyd yn eglwys y Cysegr, Bethel ar Medi 29.*

*Maent yn awr wedi gwneud eu cartref yn Waun Howel, Llanrug.*

*Dymuna'r ddau ddatgan eu diolchgarwch am yr anrhegion gwerthfawr a'r llu cardiau a gawsant ar achlysur eu priodas.*

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Tachwedd 6: Cwis yng ngofal Mr Meirion Jones, Ysgol Brynrefail. Tachwedd 20: Ffilm o Rwsia gan Mrs M. Vaughan Jones, Waunfawr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth Hydref 23 daeth y Parch John evans, Bryndu, Môn i roi atgofion o'i weinidogaeth yn ei wahanol ofalaethau cyn iddo ymddeol.

Llywydd y cyfarfod oedd Mr D. Glynne Owen, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan Mrs M. Lloyd Williams a'r Parch W.O. Roberts.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnawn Iau Hydref 18. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar ei hymweliad â gwlad Groeg. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Miss Williams, Glan Padarn, a rhoddwyd y te gan Mrs W.A. Jones, Dalar Deg, Mrs D. Williams, Meirionfa a Mrs Williams, Bod Fair. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Thomas, Dolwar a Mrs Williams, Llys Owen. Gwnaed trefniadau ar gyfer yr arwerthiant sydd i'w gynnal ar Ddachwedd 2.

MARW: Ar Hydref 8 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Eric Williams, 5 Glanmoelyn. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Heulwen Williams, Colin a Lynne a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

COLLI CYMWYNASWR ARDAL: Dydd Mawrth, Hydref 9 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr John Williams, Gweledfa ar ôl cystudd caled. Bu ei angladd brynhawn Sadwrn Hydref 13 dan arweiniad ei weinidog y Parch John Morris yn cael ei gynorthwyo gan ei gyn-weinidog y Parch W.O. Roberts. Cafwyd gwasanaeth yn y Capel Mawr pryd y daeth nifer dda o gyfeillion i dalu'r gymwynas olaf ac i ddiolch i Dduw am wir gymwynaswr. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent y Capel Mawr, Llanrug. Dyma deyrnged a roddodd y Parch W.O. Roberts iddo yn ei angladd:

**Y Diweddar Mr John Williams Gweledfa:**

Braint i mi ydyw ceisio talu teyrnged i John Williams, un o gymwynaswyr mwyaf ardal Llanrug. Cefais y fraint o'i gyfarfod gyntaf y dydd y cyrhaeddodd ein dodrefn yn Llys Eiddon. Yr oedd efo yno yn ein disgwyl i'n helpu i roi'r dodrefn yn y tŷ. Cofiaf yn dda ei weld gyda beret du am ei ben yn barod i gyflawni ei gymwynas gyntaf â ni ar ein dyfodiad i'n cartref newydd. Derbyniasom rai cannoedd o gymwynasau ganddo yn ystod y 23 mlynedd y cawsom ei gwmni ar ôl hynny oblegid dyna oedd John Williams yn bennaf, cymwynaswr i ardal gyfan, ac i bawb yn ddiwahaniaeth. Er nad oedd yn ŵr cyhoeddus yn ystyr gyffredin yr ymadrodd hwnnw, 'roedd ei wasanaeth tawel i bob agwedd ar fywyd ardal Llanrug yn ddifesur yn ei werth. Fel Dewi Sant rhoddai ei orau gyda'r pethau bychain. Pan fyddai chwiorydd y Capel Mawr eisiau tocynnau i Ffair Nadolig, neu'r Gymdeithas Lenyddol eisiau tocynnau aelodaeth, neu i eisteddfod, eisiau rhywun i osod y llwyfan ac i ofalu am y drysau, ef fyddai'r un i wneud y gwaith; a gwnâi hynny yn dawel a graenus bob amser.

Rhoddodd lawer iawn o'i amser ar hyd y blynyddoedd i Fand Llanrug. Bu ar un adeg yn aelod o'r band ac arhosodd yn aelod gwerthfawr o bwyllgor y band i'r diwedd. Yn ddiweddar dewiswyd ef yn Llywydd Clwb Blodau'r Grug, a thysia'r aelodau ei fod wedi cyflawni'r gwaith hwnnw gyda symylrwydd tawel a gwir urddas. Bu am flynyddoedd ar bwyllgor y carnifal, ac yr oedd wrth ei fodd yn paratoi Swper Nadolig i bensiynwyr yr ardal. Beth bynnag o bwys a gymerai le yn yr ardal, yr oedd ef yno ar ei orau bob amser.

Ond beth bynnag oedd ei gyfraniad i fywyd yr ardal, y Capel Mawr a gafodd ei orau. Ei rinwedd mawr oedd ei ffyddlondeb llwyr. Yn ystod y 21 mlynedd y bu fy mhriod a minnau'n gweithio gyda'r plant yn y Gobeithlu bu John Williams yn ddiarbed yn ein helpu. Yr oedd yn hoff iawn o blant ac yr oeddynt hwythau'n meddwl y byd ohono. Er iddo ddioddef gan lesgedd a gwendid mynnodd ddod bob nos Lun yn y gaeafau sut bynnag dywydd ydoedd i helpu gyda'r plant. Bu'n athro i ddosbarth o blant yn yr Ysgol Sul, ac yn arolygwr. Yr oedd ganddo feddwl mawr o'r Gymdeithas Lenyddol a bu'n ffyddlon iddi ar hyd y blynyddoedd. Bu'n ffyddlon i'r oedfaon yn y Capel Mawr trwy gydol fy ngweinidogaeth yma. Yr oedd yn hoffi gwrando'r Efengyl ac o addoli'r Gwaredwr oedd yn sicr o fod yn brofiad personol iddo.

Mae ei farw wedi creu bylchau mawr na ellir eu llenwi ym mywyd yr ardal, ei gapel, a'i gartref, Gweledfa. Yn ei gartref y mae'r golled fwyaf. Bu'n briod ffyddlon a charedig, a dymuniad pawb ohonom ydyw am i Dduw fod yn gysur ac yn nerth i Mrs Megan Williams yn ei phrofedigaeth fawr.

O'R YSGOL: Dyma'r plant a enillodd dystysgrif yr un am bresenoldeb llawn yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf:
Colin Maurice Jones, Philip Arwel Thomas, Maldwyn Morris, Huw William Lloyd Owen, Nia Lloyd Griffith, Mandy Jones, Nia Gwawr Jones, Richard David Owen, Annette Jordan, Mathew Wyn Williams, Ryan Marcus Jones, Llŷr Sion Roberts, Karen Lloyd Humphreys, Angela Wyn Humphreys, Catrin Eleri Jones a Caroline Ann Jones. Mae'r canlynol yn ennill tystysgrif am yr eilwaith yn olynol: Bryn Ceirion Jones, Gavin Trevor, Glenys Jones, Lowri Williams, Rhodri a Gwion ap Llwyd, Fiona Challinor Owen, Aled Parry, Wayne Mathew Jones a Gwenan Mair Roberts. Ein llongyfarchiadau arbennig i Nichola Cropper (sydd erbyn hyn yn Ysgol Brynrefail) a Geraint Ellis Tanley Lewis sy'n ennill eu trydedd tystysgrif presenoldeb yn olynol.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Cynhaliwyd eisteddfod flynyddol Llanrug eleni ddydd Sadwrn Hydref 13 ac unwaith eto bu'n llwyddiant diamheuol gyda phymtheng awr o gystadlu brwd. Yng nghyfarfod y pnawn yn unig beirniadwyd 126 o eitemau cerddorol gan y beirniad cerdd, Mr Rhys Jones, Rhuddlan. Y beirniaid eraill oedd – **Adrodd:** Mr Alun Jones, Aberystwyth. **Llenyddiaeth:** Miss Rhiannon Davies Jones, Porthaethwy a Mr John Owen Huws, Caernarfon. **Arlunio:** Mr Frank Green, Pontrug. **Crefft:** Mr Stephen Breeze, Llanfaglan. **Coginio a Chrefft Cartref:** Mrs Myfanwy Williams, Rhosbodrual. **Ffotograffiaeth:** Mr Islwyn Jones, Llanrug. Y gyfeilyddes oedd Mrs Annette Bryn Parri, Deiniolen a'r delynores oedd Mrs Megan Roberts, Llanrug. Croesawyd un o blant y pentref, Mrs Mona Jones erbyn hyn o Garndolbenmaen yn llywydd yr eisteddfod a rhoddodd anerchiad diddorol i blant y pentref yng nghyfarfod y pnawn. Arweinyddion y pnawn oedd Mrs Anwen Owen, Mrs Menna Williams a Mrs Margaret Parry ac yn yr hwyr, Mrs Esyllt Morris Jones, Mr Alwyn

*(Parhad ar dud 7,*



*Y llywydd, Mrs Mona Jones.*




**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**

# Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

**Llanrug**

*Ffôn: CAERNARFON 4652*

# LLANRUG (parhad)

Pleming a'r Dr Eurwyn Lloyd Evans. Yng nghyfarfod yr hwyr cafwyd seremoni gadeirio a chyflwyno'r fedal ryddiaith wedi ei threfnu gan Mr Alwyn Pleming a disgyblion chweched dosbarth Ysgol Uwchradd Brynrefail. Dyfarnwyd y gadair i Mr Medwyn Jones, Rhuthun a'r fedal ryddiaith i Miss Hilma Lloyd Edwards, Bontnewydd. Cyfarchwyd y bardd a'r llenor gan ddawnswyr blodau Ysgol Gynradd Llanrug a hyfforddwyd hwy gan Mrs Anwen Owen a Mrs Heulwen Evans. Dyma'r buddugwyr:

**Llenyddiaeth:**

**Rhyddiaith: Babanod Canol ac Uchaf**: 1. Rhian Green, Beverley Roberts, Mathew Wyn Williams, Catrin Hughes, 2. Ruth Wood, Luned Jones, Sioned Jones, Sharon Jones, Iona Williams, Lynne Shudlack, Judith Glaister, Iwan Grenraldt, Llŷr Roberts, Simon Humphreys, 3. Sharon Michelle Jones, Nicola Gibbins, Claire Morris, Gareth Jones, Dylan Randell, Karen Humphreys, Caren Roberts, Rhiannon Hughes, Gavin Jones, Ryan Jones. **Safon 1 a 2:** 1. Gwion ap Llwyd, Nia Griffith, 2. Gwenan Roberts, Michael Jones, 3. Owain ap Gruffydd, Sioned Jacques. **Safon 3 a 4:** 1. Lowri Angharad Roberts, 2. Bryn Cerion Jones, Tammi Jones, 3. Lowri Williams, Iolo Eilian. **Blwyddyn 1 a 2, Ysgol Uwchradd**: 1. Einir Angharad Price, Bethel, 2. Gwyn Griffiths, Deiniolen, 3. Karen Jones, Llanrug, Eurgain Haf Evans, Penisarwaun. **Blwyddyn 3 a 4**: 1. Gwawr Owen, Llanrug. **Blwyddyn 5 a 6**: 1. Bethan Jones, Llanberis, Richard Williams, 2. Delyth wyn Huws, Llanrug, Manon Williams, Bethel, Einir Parri, Ceunant.

**Ysgrif**: Mrs J. Eirlys Williams, Deiniolen. **Stori Fer Ddigri**: cyd. John Roberts, Llanrug a Ceri Bennet Jones, Llanfairpwll. **Traethawd**: 1. Dafydd Wh. Thomas, Llanrug.

**BARDDONIAETH**: **Safon 1 a 2:** 1. Gwion ap Llwyd, 2. Aled Roberts, 3. Elen Wyn Parry a Simon Murphy. **Safon 3 a 4**: 1. Meical Owen, 2. Aled Parry, Andrew Gardiner, Wendy Smith, Tammi Jones. **Blwyddyn 1 a 2, Ysgol Uwchradd**: 1. Eurgain Haf Evans, Penisarwaun, 2. Siôn Llwyd Elis, Llanrug, 3. Einir Angharad Price, Bethel, Bethan Wyn Jones.

Englyn: 1. John Roberts, Llanrug, 2. Meirion Llinos, Caernarfon. **Englyn ysgafn**: 1. John Roberts, Llanrug. **Telyneg**: 1. John D. Evans, Deiniolen. **Limrig**: 1. John Roberts, Llanrug, John D. Evans, Deiniolen, 2. John D. Evans, Deiniolen.

**Arlunio**:

**Dosbarth Meithrin**: 1. Martin Morris, 2. Catrin ac Eifion Jones, 3. Ioan a Sarah, 4. Emma a Claire. **Dosbarth Derbyn**: 1. Ioan, 2. Gareth, Wyn a Cheryl Edwards, 3. Samantha Tate a Kathryn Smith, 4. Delyth Humphreys a Jacqueline Gibbins. **Babanod Canol ac Uchaf**: 1. Ruth Wood a Nicola Gibbins, 2. Judith Glaister a Gareth Parry, 3. Sioned Jones a Luned Jones, 4. Clair Morris a Beverley Roberts. **Safon 1 a 2**: 1. Iwan Parry, Michael Jones, Catrin Williams, 2. Nia Griffith, George Howarth, Gwion ap Llwyd, 3. Dylan Lloyd Jones, Catherine Griffith, Simon Murphy. **Safon 3 a 4**: 1. Tammi Jones, David Morris, 2. Iorwerth Gray-Parry, Mark Jones, Lois Pritchard, 3. Lowri Williams, Corrina Thomas, Rhys Llwyd Elis, 4. Tracy Roberts, Iorwerth Gray Parry. **Dosbarthiadau 1 a 2 Ysgol Uwchradd**: 1. David Roberts, Llanrug.

3 Dimensiwn: Dan 8: 1. Mathew Wyn Williams, 2. Morgan ap Gruffydd. **Dan 12**: 1. Tudor Wyn Jones, 2. Rhys Llwyd Elis, 3. Alan Davies.

**Ffotograffiaeth**:

**Agored** – Berwyn Hughes Llanrug.

**Crefft Cartref**:

**Gwnio: Dan 12**: 1. Nia Griffiths, 2. Elen Parri. **Dan 16**: 1. Elen Roberts, 2. Llinos Davies. **Agored**: 1. Ann Humphreys, 2. Eirianwen Thomas, 3. E. Whiteside Thomas. **Gwau – Agored**: 1. Ann Gibbins, 2. Hilda Jones, 3. Ann Lloyd Griffith, Morfudd Roberts. **Coginio: Dan 12**: 1. Nia Griffith, 2. Rhys Llwyd, 3. John Elwyn Jones. **Dan 16**: 1. Nigel Thomas, 2. Linda Morris, 3. Llinos Davies, John Elwyn Jones. **Agored**: 1. Menna Williams, 2. Margaret Jones, 3. Joyce Jones. **Gwin cartref**: 1. Margaret Parry, 2. Eirianwen Thomas, Bethanne Williams, 3. Hefin Williams. **Gosod blodau**: 1 a 2: Beryl Thomas, 3. Margaret Roberts.

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN**

**Cyfarfod y pnawn:**

**Cerdd**

**Cyn oed ysgol:** 1. Emyr Roberts, Einir Roberts, Awen Humphreys. **Dosbarth Meithrin a Derbyn**: 1. Jamie Scase, 2. Delyth Humphreys, 3. Cheryl Edwards, Samantha Tate, 4. Jacqueline Gibbins. **Babanod Canol a Babanod Uchaf**: 1. Luned Jones, 2. Sioned Mair Jones, 3. Llŷr Siôn Roberts. **Safon 1 a 2**: 1. Gwenan Mair Roberts, 2. Nia Griffith, 3. Delyth Morris. **Safon 3 a 4**: 1. Ffion Orwig Thomas, 2. Lowri Angharad Roberts, 3. Lowri Williams, 4. Iolo Eilian. **Unawd Cerdd Dant dan 9 oed**: 1. Gwenan Mair Roberts, 2. Llŷr Siôn Roberts. **Dan 12 oed**: 1. Ffion Williams, 2. Ffion Orwig Thomas. **Unawd Piano dan 12:** 1. Bryn Cerion Jones, 2. Lowri Angharad Roberts, 3. Lowri Williams. **Parti Recorder**: 1. Parti Nerys, 2. Parti Aled. **Unawd ar offeryn chwyth:** 1. Bryn Carwyn Thomas, 2. Kevin Davies, 3. Maldwyn Morris. **Unawd ar offeryn llinynnol:** 1. Gwenan Mair Roberts, 2. Nerys Powell, 3. Lowri Angharad Roberts. **Parti Unsain**: 1. Parti Mark, 2. Parti Catrin, 3. Parti Nia. **Gwobr arbennig:** 1. Parti John Elwyn.

**Adrodd:**

**Dosbarth Meithrin a Dosbarth Derbyn**: 1. Iwan Griffith, 2. Ieuan Green, Marc Owen, 3. Gareth Wyn Roberts, Delyth Humphreys. **Babanod Canol ac Uchaf**: 1. Gareth Jones, 2. Ryan Jones, 3. Llŷr Siôn Roberts. **Safon 1 a 2:** 1. Nia Griffith, 2. Gwenan Mair Roberts, 3. Aled Roberts. **Safon 3 a 4**: 1. Lowri Angharad Roberts, 2. Ffion Orwig Thomas, 3. Tammi Jones. **Côr adrodd:** 1. Parti Safon 4.

**CYFARFOD YR HWYR**

**Cerdd:**

**Unawd Dosbarth 1, 2 a 3 Ysgol Uwchradd:** 1. Ffion Williams, Llanrug, 2. Graham Williams, Llanrug. **Dan 16**: 1. Ffion Williams, Llanrug, 2. Sharon Roberts, Llanrug, 3. Graham Williams, Llanrug. **Deuawd dan 16**: 1. Lowri a Gwenan Roberts, Llanrug, 2. Carys a Beryl Jones, Ffôr, 3. Sharon a Nia Roberts, Llanrug, 4. Karen a Siân Jones, Waunfawr. **Unawd 16-21:** 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Lyn Jones, Llanberis, 3. Trefor Williams, Bodffordd. **Unawd ar offeryn chwyth dan 19**: 1. Gwyn Meirion Roberts, Llanrug, 2. Graham Williams, Llanrug, 3. Sian Wyn Jones, Llanrug. **Unawd piano dan 19**: 1. Meinir Williams, Bethel, 2. Elen Wyn Roberts, Llanrug, 3. Alison Edwards, Llanberis. **Unawd Cerdd Dant dan 21**: 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Alison Edwards, Llanberis, Lyn Jones, Llanberis. **Cân Werin**: 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Lyn Jones, Llanberis, 3. Megan Jones, Bangor. **Unawd offerynnol agored**: 1. Berwyn Owen, Llanrug, 2. Gwyn Meirion Roberts, Llanrug, 3. Graham Williams, Llanrug. **Unawd dros 50**: 1. Katie Wyn Jones, Llandwrog, 2. Ithel Jones, Ffôr, 3. Tecwyn Blainey, Trefnant. **Unawd Cerdd Dant agored**: 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Lynne Jones, Llanberis, John Roberts, Llanrug. **Deuawd Agored**: 1. Bethan Haf a Llinos Price, Garndolbenmaen. **Prif Unawd:** 1. Clarence Jones, Llanddaniel, 2. Dafydd Roberts, Llithfaen, 3. Emyr Wyn Jones, Llangristiolus, 4. Raymond Jones, Caernarfon. **Wythawd:** 1. Cantorion Vivaldi, 2. 8 yn y Bar.

**Adrodd**

**Dosbarth 1, 2 a 3, Ysgol Uwchradd:** 1. Elen Wyn Roberts, Llanrug, 2. Iestyn Roberts, Llanrug. **Dan 16**: 1. Enfys Medi, Penrhoslligwr, 2. Gwawr Owen, Llanrug, 3. Carys Jones, Ffôr. **Scets**: 1. Deiniolen. **Adrodd Digrif**: 1. Euryn Jones, Llangwm, 2. Bethan Jones, Llanfairpwll, 3. William Williams, Pistyll. **Côr adrodd:** 1. Parti'r Ddôl, Caernarfon, 2. Parti Ceris, Deiniolen. **Prif adroddiad:** 1. Euryn Jones, Llangwm, 2. Gwenda Williams, Bodffordd, 3. Meira Turner, Waunfawr, Myfanwy Roberts, Llangefni.

Dymuna pwyllgor yr eisteddfod ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr eisteddfod a thaer erfynnir am fwy o gefnogaeth i bwyllgorau'r eisteddfod – PLIS DOWCH I HELPU.

DIOLCH: Dymuna Delyth, 60 Glanffynnon ddiolch i'w chyfeillion i gyd am eu dymuniadau da ac am yr anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

**RHODD**

Diolch i Mrs T.W. Thomas am ei rhodd o £3 tuag at yr Eco.

# BARDD . BEIRNIAD . LLENOR



*Prifardd a phri-lenor yr eisteddfod gyda'r beirniad Miss Rhiannon Davies-Jones. Testun Cerdd Mr Medwyn Jones, Y Rhyl oedd 'Yr Haid'. Tasg lwyddiannus Miss Hilma Lloyd Edwards, Y Bontnewydd oedd creu stori fodern wedi ei seilio ar hen chwedl.*



*Rhai o fuddugwyr ieuengaf yr eisteddfod yn gwenu'n ddel i ddarllenwyr yr Eco — ar eu ffordd o'r llwyfan.*

## *AC O EISTEDDFOD Y SEINDORF*



*Jim Jones, Dwyros yn derbyn cwpan y buddugwr yn y gystadleuaeth 'Air Varie' gan y beirniad William Skelton.*

## Y GANGEN ORAU



*Staff Curry's Caernarfon a Mr Alan Curry yn dathlu eu llwyddiant yng Ngwesty'r Foelas. Mae nifer o'r staff yn byw yn Llanrug.*


# M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 2898**
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

# DEINIOLEN

**Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD DISGWYLFA (MC): Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Iau, Hydref 4 gyda Mrs Helen Jones yn cymryd y rhan ddefosiynol. Dechreuodd y Llywydd, Mrs Miriam Lewis, y cyfarfod gyda chyfarchion cynnes tuag at yr aelodau hynny o'r Eglwys sydd yn cwyno oherwydd gwaeledd. Da oedd clywed fod Mrs J. Lewis, 18 Pentre Helen gartref ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd am bum wythnos. Dymunir adferiad iechyd i bawb sydd yn wael. Dymunir yn dda i Mrs Mary Morris ar ei hymddeoliad, a hefyd anfonir dymuniadau da i Dilwyn a Kathy ar gychwyn eu bywyd priodasol ym Macphelah House. Cyfarchion a dymuniadau gorau hefyd i Kevin Rowlands a Geurwen ar achlysur eu priodas ar Hydref 6.

Da oedd clywed fod yna 'Fand of Hope' wedi dechrau ar nos Fawrth, Hydref 2 – fe'i gelwir yn Clwb Trwro, a hyd yn hyn mae deugain neu fwy o'r plant wedi derbyn bathodynnau aelodaeth.

Dydd Sul, Hydref 7 cynhaliwyd cyfarfod gan y plant yn y prynhawn a Chymanfa Ganu yn yr hwyr dan arweiniad Mr John Jones, Ceris, Deiniolen.

Mae cyfanswm 'Apêl Ethiopia' hyd yn hyn rhwng Deiniolen a Llanberis wedi cyrraedd £950 – cyfanswm da iawn rhwng dau bentref bychan.

Am y rhan olaf o'r cyfarfod cafwyd adroddiad gan Mrs Miriam Lewis am ddiwrnod y chwiorydd yn y Bala. Yr oeddynt wedi cael diwrnod difyr, gyda gwasanaeth, ffilmiau a grwpiau trafod ac araith gan Carys Humphreys am ei gwaith cenhadol yn Jamaica.

Rhoddwyd y te y mis hwn gan Mrs Beti W. Davies a Mrs J.C. Hughes. Croesewir chwi fel chwiorydd i ymuno â ni yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 1.

Da clywed fod Mr J. Pritchard, Pentre Helen a Mr J. Lewis, 16 Rhydfadog yn gwella, y ddau wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Môn ac Arfon cyn symud i Ysbyty Gwynedd.

Y SEINDORF: Ar y dydd Sadwrn olaf o'r mis hwn sef Hydref 27, bydd y Seindorf yn cystadlu mewn cystadleuaeth bwysig iawn sef prawf terfynol 'Pontins' Prestatyn.

Daethant i'r prawf terfynol trwy gipio'r ail wobr yn 'Pontins' Southport ym mis Ebrill allan o 22 o fandiau.

Y tro hwn bydd 18 o fandiau yn cystadlu, eu hyfforddwr yw Mr Meurig Parry, Llanrug.

Mae ganddynt hyfforddwr proffesiynol ar gyfer cystadlaethau, sef Mr J. Childs o Doncaster, Swydd Efrog. Pob lwc i'r hogiau.

Y canlyniad yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Enillwyr 200 y Seindorf: Hydref: £25, rhif 74, Edgar Wyn Owen, Waunfawr. 2. £15, rhif 190, Miss Kathleen Jones, Prenteg, Clwt-y-bont. 3. £5, rhif 121, John, c.o. Tafarn Y Bull, Deiniolen.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor y gangen yn Ninorwig nos Fawrth Hydref 16, pryd y trafodwyd y casglu aelodaeth am 1984-85.

Nos Wener, Hydref 19, cafodd aelodau'r gangen gyfle i bleidleisio i lywydd newydd y Blaid, yn y Ganolfan.

CLWB ELIDIR: Cyfarfod dydd Mawrth Tachwedd 14 a dydd Mawrth Tachwedd 27.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y clinic pnawn dydd Mawrth Hydref 2. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs C. Marren. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor. Dangosodd Mrs Megan Morris amryw ffilmiau. Enillwyd y raffl gan Mrs Ellen, 2 Bwthyn. Pasiwyd cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Mrs Maggie Evans, 6 Tai Caradog, hefyd gyda theulu'r ddiweddar Mrs Enid Williams, 3 Rhes Faenol. Yr oedd y ddwy yn aelodau selog o Clwb Elidir.

Yn y cyfarfod ar ddydd Mawrth, Hydref 16 cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu dydd Diolchgarwch; trefnwyd y rhaglen gan Mrs Megan Morris. Rhoddwyd y te gan y Llywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Brynrefail. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan yr aelodau canlynol, Mrs Katie Griffith, Mrs Megan Morris, Mrs Nancy Rowlands, Mrs Jane Jones, Mrs Betty Wyn Davies, Mrs Mary Thomas, Mrs Jane Eirlys Williams, Mrs Miriam Lewis, Miss Moller, a Miss Kathleen Jones. Talwyd diolch i'r chwiorydd gan y Llywydd. Anfonwyd cofion yr aelodau at ddwy chwaer oedd ddim yn dda, sef Mrs Nellie Hughes, Erw Fair a Mrs Elsie Davies, 1 Tai Gwyrfai.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Medi 22 yn Eglwys Glanogwen Bethesda priodwyd Dilwyn mab Mr a Mrs Neville Thorman-Jones, 14 Tai Caradog a Kathleen, merch Mr a Mrs W.E. Jeffreys, Abercaseg, Bethesda. Gwasanaethwyd gan y Parch Alwyn Roberts a'r organyddes oedd Mrs M. Roberts.

Y morynion oedd Anwen chwaer y priodfab a Julie chwaer y briodferch. Y gwas oedd Mr Steven W. Evans, ffrind Dilwyn.

Cynhaliwyd y wledd briodas a'r Disgo yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis.

Maent yn ymgartrefu yn 2 Tai Macpelah, Deiniolen.



Dymuna Dilwyn a Kathleen Thorman-Jones ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Carai Mary Morris, 91 Pentre Helen ddiolch i Ferched Cymorth Cartref, ei ffrindiau a'i chymdogion am yr arian, anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd wrth ymddeol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

PRIODAS: Sadwrn Medi 1af yng Nghapel Cefn-y-waun, priodwyd Rhian Wyn merch Mr a Mrs John Maldwyn Jones a Mr Keith Morris mab Mrs Eirlys Morris a'r diweddar Mr Morris Wyn Morris, 27 Maes Cadnant, Caernarfon gynt o Fron Deg, Clwt-y-bont. Gweinyddwyd gan y Parch Trefor Lewis, BD, a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mr J. Nefyl Williams, ewythr y briodasferch. Yn ystod y cofrestru cafwyd datganiad gan Mrs Lona Lewis. Y gwas oedd Mr Richard W. Morris, brawd y priodfab a'r morynion oedd Miss Helen Mair Jones, chwaer y briodferch a Miss Mandy Jones ei ffrind. Mr Gruffydd W. Morris, brawd y priodfab a Mr Aeron Maldwyn Jones, brawd y briodferch oedd yr ystlyswyr. Rhoddwyd pedolau i Rhian a Keith gan Dylan, David, Roberts, Alan, Huw, Sian, Derwyn, Elin, Owain a Gwennan, Maria A Shaun, Llio a Gwenno. Gwnaethpwyd y deisen briodas gan Mrs Gillian Jones, Tan-y-gollen, Deiniolen.

Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Plas Tandinas gyda 105 o westeion. Treuliwyd y mis mêl ar ynys Corfu, a byddant yn ymgartrefu yn Fron Deg, Glan'rafon, Bontnewydd.



DIOLCH: Dymuna Rhian a Keith ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Sandra Baum Lewis, Tŷ Capel, Y Ffôr ger Pwllheli ddiolch i'r perthnasau a'u cyfeillion ym mro'r 'Eco' am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Diolch o galon i bawb.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan nos Fercher, Hydref 17. Yn y gadair oedd yr Is-lywydd, Miss Kathleen Jones. Y gŵr gwadd oedd Mr O.R. Williams, Bro Elidir, Dinorwig. Cafwyd noson hynod o ddiddorol ganddo yn sôn am ei blentyndod yn y Cartref yn y Bontnewydd. Diolchwyd iddo gan Mrs Ellen Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Dilys Hughes a Mrs Helen Sutherland.

Dalier sylw fod y swper Nadolig wedi cael ei newid i Dachwedd 30 yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. Enwau mor fuag ag sy'n bosibl i Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 19. Y wraig wadd fydd Mrs Arvona Jones, Bangor.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 6 yng Nghapel Jerusalem Llanberis priodwyd Mr Kevin Wynne Rowlands, 17 Rhyd Fadog, Deiniolen â Miss Gaerwen Griffiths, 7 Llain Isaf, Llanberis.

Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Hugh John Hughes, Porthaethwy, a'r organyddes oedd Mrs Helen Wyn Lewis, Deiniolen. Y morynion oedd Christine, Wendy a Melissa, a Mr Malcolm Lloyd Jones, ffrind y priodfab oedd y gwas. Yr hebryngwyr oed Mr Terrence Griffiths a Mr Melvin Rowlands.

Cynhaliwyd y wledd briodasol a disgo gyda'r nos yng Nghwesty Dolbadarn Llanberis. Treuliodd y pâr ifanc eu mis mêl yn Llundain.

Byddant yn cartrefu yn 5 Stryd Ceunant, Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Kevin a Geurwen ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau, am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da, am y llu o gardiau, ac anrhegion gwerthfawr ac arian.

LLONGYFARCHIADAU: i Siôn Wyn, Ty'n y Weirglodd, ar ei lwyddiant ym myd yr Adrodd yn ddiweddar. Yn ystod yr haf enillodd y Fedal am adrodd yn Eisteddfod Llandegfan, Ynys Môn, ac yn Eisteddfod Gadeiriol Caernarfon cafodd yr ail wobr. Go dda chdi, Siôn Wyn.

PRIODAS: Yn Eglwys St John Jones, Llanberis ddydd Sadwrn, Medi 15 priodwyd Tracey, unig blentyn Mr a Mrs Tecwyn Williams, 15 Pentre Helen, Deiniolen. A Joseph, mab Mr a Mrs M. Demicoli, Tarxien, Malta.

Gwasanaethwyd gan y Tad


LLOGI CEIR AR GYFER PRIODASAU AC ANGLADDAU. LLOGI BYSUS MINI.

**J.M. WILLIAMS**

**TREFNYDD ANGLADDAU**

**CABS DEINIOLEN**

12 TAI FAENOL, DEINIOLEN

**Ffôn: LLANBERIS 871591**

CREFFT·ELIDIR

**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**

**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

**Ar agor 9.30 am - 9.30 pm**

## DEINIOLEN (Parhad)

McNamarra a'r Parch Trevor Lewis. Darparwyd y wledd briodasol a disgo gyda'r nos yng Ngwesty Brenhinol Victoria, Llanberis. Addurnwyd yr Eglwys gan Mrs Janice Land.

Dymuna'r teulu oll bob hapusrwydd iddynt.



DIOLCH: Dymuna Tracey a Joe ddiolch yn ffawr i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da. Derbyniasant lu o anrhegion gwerthfawr, a rhoddion mewn arian a hefyd nifer fawr o gardiau. Diolch i bawb.

Dymuna Miss Bridgett Huws, 4 Gwyrfai Terrace, Clwt-y-bont ddiolch o galon i'r teulu oll a ffrindiau am y llu anrhegion a dderbyniodd pan adawodd yr ysgol ddiwedd y tymor i ddilyn cwrs coginio yng Ngholeg Llandrillo. Diolch i bawb.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i Miss Glenda Parry, 13 Hafod Oleu ar ei dyweddïad â Michael Meirion Jones, Jubilee Teras, y Felinheli.

Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Dymuna Glenda a Michael ddiolch am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant.

YSGOL FEITHRIN: Dymuna'r ysgol feithrin ddiolch yn fawr iawn i'r canlynol am alw i mewn atom ni yn ddiweddar: Wncl Dafydd y Plismon, Mr Lewis y Gweinidog, Anti Jên y Nyrs, ac Anti Denise (am wneud 'popcorn' i ni). Diolch hefyd i'r genod o Ysgol Brynrefail sydd yn cynorthwyo ar 'rota'.

PWYSIG: Cynhelir cyngerdd yn Ysgol Gwaun Gynfi **Tachwedd 29**, i godi arian at barti Dolig plant yr Ysgol Feithrin. Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb sydd wedi addo perfformio (talent y fro).

Tocynnau ar gael gan **Mrs P. Thomas, 3 Pentre Helen,** neu ar gael o'r **Ysgol Feithrin.** Dewch yn llu!

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Neuadd yr Ysgol ar Hydref 1 dan lywyddiaeth Mrs Rita Parry Jones. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion gan yr ysgrifennydd. Y wraig wadd oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon, y V.C.O. Cawsom noson ddifyr yn ei chwmni – yn ein dysgu i ddawnsio gwerin. Rhoddwyd y te gan Mrs Woodcocks, 15 Maes Gwylfa a Mrs Anna Williams, 77 Pentre Helen, Mrs Beti W. Davies enillodd y raffl.

Cynhelir y cyfarfod nesa' nos Fercher Tachwedd 7 pryd y disgwylir Mrs Pat Roberts, Brynrefail i roi arddangosfa o sut i addurno cacen Nadolig.

EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG: Cynhelir gwasanaeth Cristingle ar Ragfyr 6 am 7 o'r gloch. Ceir eitemau gan Mr Ifan Bryn Roberts a'r genethod, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, a Seindorf Arian y pentref. Croeso i bawb.


# IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



**I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...**
# Osmond W. Shaw
DEINIOLEN
*Ffôn:*
*LLANBERIS 870545*
**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**



# W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
**PANT TIRION, LLANRUG**
*Ffôn: Caernarfon 3248*
**GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW**
**GWRES BP**
**Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.**
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*



**GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**
# Linda
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

**CAERNARFON 3674**
i drefnu amser


# "GWNEWCH DEGAN I HELPU DR BARNARDO"

Dyna alwad Moira Ellis, Brynrefail. Mae Moira yn cael ei chyflogi gan Fudiad Dr Barnardo i redeg eu siop yn Stryd Llyn, Caernarfon. Ers agor y siop tua dwy flynedd a hanner yn ôl mae pobl Caernarfon a'r cylch wedi helpu Moira a'i chynorthwywyr i godi dros £30,000 – llwyddiant yn wir. Mae Moira yn pwysleisio mai canlyniad ei chydweithwyr gwirfoddol (14 ohonynt) sydd wedi bod yn allweddol i sicrhau llwyddiant y siop gan fod gofyn cael rhywun wrth law o 9 a.m. hyd 4 p.m. bob dydd.

Y Nadolig cyntaf ar ôl agor y siop cafodd Moira y syniad o gynnal cystadleuaeth i wneud tegan. Roedd y siop yn derbyn llawer o deganau ail-law ond gwelodd Moira y byddai rhai newydd yn fwy deniadol. Meddyliodd felly am gystadleuaeth fel y byddai pob tegan yn dod yn rhodd i'r siop wedyn.

Unwaith eto eleni mae Moira wedi trefnu cystadleuaeth. Nid oes rhaid defnyddio pethau drud i wneud y teganau – gellir gwisgo doli, neu wneud tegan meddal rhad iawn, neu degan addas ar gyfer plant sydd â nam corfforol, ond bydd pob tegan yn y pen draw yn gymorth i gael rhagor o arian i helpu'r 9000 o blant dan ofal mudiad Dr Barnardo. Wrth gwrs, yr un pryd, caiff pob cystadleuydd gyfle i ennill arian gyda'i degan.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth am eleni yw **Tachwedd 28**, felly ewch ati ar unwaith i wneud tegan gan gofio nodi ar gerdyn neu ddarn o bapur eich enw a'ch cyfeiriad, eich oedran (os o dan 16 oed) a'r teip o degan. Rhaid i'r tegan gael ei wneud yn gyfan gwbl gan y sawl sydd â'i enw ar y papur. Bydd barn y beirniaid yn derfynol. Rhaid mynd â'ch teganau i Siop Dr Barnardo, Stryd Llyn, Caernarfon erbyn y dyddiad cau. Bydd gwobrau o £5, £3 a £2 ynghyd â gwobr arbennig i'r tegan gorau o waith plentyn.

Cofiwch hefyd y bydd croeso yn y siop i'ch dillad, llyfrau neu unrhyw beth y gellir ei werthu i wneud elw.

# HYWEL MORGAN – USTUS

*Ddiwedd y mis daw cyfres antur newydd i'n sgrîn pan fydd S4C yn dangos pennod gyntaf o'u cyfres ddrama at y gaeaf.*

*Cynhyrchwyd* **Hywel Morgan – Ustus** *gan Alun Ffred Jones o Ffilmiau'r Nant sydd wedi anelu, meddai, at gynhyrchiad "credadwy a gafaelgar."*

*Chwaraeir y prif ran, rhan yr Ustus ifanc o ddechrau'r ganrif ddiwethaf, gan yr actor Bryn Fôn.*

*Ganwyd Hywel Morgan yn uchelwr, ond wedi dod adref o Lundain mae'n darganfod nad efo'i gyd-uchelwyr mae ei gydymdeimlad. Fel ustus, mae'n gyfrifol am weinyddu cyfraith Lloegr, ond mae ei gydymdeimlad yn aml iawn efo'r rhai sy'n dod gerbron "eu gwell."*

*Yn y bennod gyntaf, a welir nos Sul Tachwedd 25, darganfod pwy ydyw mam plentyn bychan wedi ei adael sy'n achosi penbleth i'r Ustus. Ond mae darganfod y fam yn creu mwy o broblemau nag y mae'n ei ddatrys.*

*Un wyneb newydd ymhlith y prif actorion fydd un Rhys Richards, actor ifanc addawol o'r Bala.*


**Busnes newydd ym Mro'r Eco . . .**
# EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
**44 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Caernarfon.**
**3513**




# J.M. JONES A'I FAB
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**A THREFNWYR ANGLADDAU**
# DEINIOLEN
**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**

# ECO'R IFANC

**Tudalen i blant a phobl ifanc bro'r Eco yw 'Eco'r Ifanc'. Y bwriad yw rhoi cyfle i ieuenctid yr ardal fynegi eu barn ac i baratoi adroddiadau am eu gweithgareddau. Bydd 'Eco'r Ifanc' yn ymweld â mudiadau ieuenctid ein pentrefi ac o dro i dro bydd y dudalen yng ngofal ysgolion y fro.**



*Dyma i chwi griw o blant wrth eu bodd! Noson agoriadol Adran Bentref Bethel a phawb yn ysu am dymor arall o weithgareddau'r Urdd. Gobeithio y cewch dymor llwyddiannus a hwyliog.*




Cafwyd diwrnod i'w gofio yng Nghapel Mawr Llanrug ddydd Sadwrn diwethaf. Bu oeddutu trigian o blant yr ardal yn mwynhau 'Hwyl Hydref' a drefnwyd gan Delyth Oswy – Swyddog Datblygu i'r Cyngor Ysgolion Sul.

Bwriad y digwyddiad oedd cyflwyno storïau Beibl i blant o 7 i 11 oed mewn dull bywiog a diddorol. Gwnaethpwyd hyn drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau. Yn ystod y dydd bu'r plant wrthi'n cael cwisiau, ffilmiau, storïau, canu, helfa drysor a mini-gampau. Braf oedd gweld y plant wedi ymgolli'n llwyr yn y gweithgareddau a dywedodd sawl plentyn y buasent wrth eu bodd i gael diwrnod cyffelyb eto. Tybed sawl un ohonoch sy'n dal i gofio'r adnod?

> 'Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd Goleuni y byd ydwyf fi; yr hwn â'm dilyn i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.'
> (IOAN 8 ADNOD 12)

# BEIRDD Y DYFODOL?

**Dyma gyfle i flasu gwaith rhai o feirdd ifanc y fro a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrug. Yn ôl y beirniad Rhiannon Davies Jones roedd eu gwaith o safon uchel iawn.**

**YR YSBRYD**

**Roedd 'na fellt a tharanau tu allan**
**Fflachio**
**Yn swnllyd.**
**Roeddwn i'n oer i gyd ac yn unig.**
**Cerddais yn araf bach**
**I fyny'r grisiau gwichlyd**
**Gan edrych o gwmpas**
**Yn ofnus.**

**Gwelais ddrws**
**Cerddais drwyddo**
**A gwelais ddynes**
**Cerddais ati**

**Ond wrth fy ngweld**
**Rhoddodd hi sgrech !**
**Sgrech anferthol**
**Dychrynais i.**
**Hen fywyd annifyr**
**Yw bod yn ysbryd.**

**GWION AP LLWYD**

**BREUDDWYD**

**Mewn cae pêl-droed yr oeddwn**
**Yn chwarae i Gymru fach**
**Yn erbyn tîm anifeiliaid**
**Wedi eu gwisgo i gyd mewn glas.**

**Roedd pryfed, pysgod popeth**
**Yn gwylio ein gêm ni**
**A brenin dewr y goedwig**
**Yn actio reffari.**

**Mae'r bêl gan fuwch ... gan deigar**
**Nawr dafad, wedyn ci**
**Gwelais innau gyfle**
**Am gôl i dîm bach ni.**

**Rhois gic i'r bêl ac ... arswyd**
**I mewn i'r gôl â hi**
**Ac Octopws y goli**
**Am ladd ein harwr ni.**

**Ond breuddwyd oedd y cyfan**
**Mewn gwelyd roeddwn i**
**A mam yn fy sgytian**
**"I'r ysgol, ffwrdd â chdi."**

**MEICAL OWEN**

**CYFRINACH**

**'Rhen gath**
**Mae dy fol fel casgen gwrw**
**Beth a fwyteaist yn ddiweddar?**
**A pham yr olwg gyfrinachol**
**Ar dy wyneb hoff?**

**Cerddi'n llesg**
**I'th fasged wiail,**
**A gorwedd yno**
**Dan gau dy lygaid gwyrddion.**
**Âf innau allan**
**A'th adael i'th gwsg.**

**Gofidiad,**
**Dychwelaf,**
**Rhyfeddaf**
**O weld dy wyneb**
**Yn un wên hapus**
**Wrth i ti lyfu dy deulu bychain dall**
**A gwsg yn drwm**
**Yn dy fynwes lan.**

**'Rhen gath,**
**Dotiaf at dy gyfrinach.**

**EURGAIN HAF EVANS**
**(Dosbarth 2)**

Bydd 'Eco'r Ifanc' yn falch o'r cyfle i gyhoeddi gwaith barddonol neu lenyddol a fu'n fuddugol yn eisteddfodau'r fro.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

**YSGOL BRYNREFAIL**

YR URDD: Ar drydedd nos Fercher y tymor cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Urdd, yn arbennig i groesawu y newydd ddyfodiaid. Cafodd pawb hwyl fawr yn yr helfa drysor a gafodd ei threfnu gan Mr Gomer Davies.

TAITH GERDDED NODDEDIG: Cynhaliwyd taith gerdded noddedig ddydd Mawrth, Hydref 16. Roedd disgyblion yr ysgol i gyd yn cerdded taith o bum milltir a oedd wedi ei threfnu gan Mr D. Parry.

DISCO NODDEDIG: Bu'r chweched dosbarth yn dawnsio am bedair awr nos Wener, Hydref 12 er mwyn codi arian i drefnu parti Nadolig i ysgol Pendalar, Caernarfon.

DAU FAB: Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Ellis Owen a Mrs Delia Jones. Rhoddodd y ddwy enedigaeth i feibion o fewn diwrnod i'w gilydd, yn Ysbyty Dewi Sant. Dymuniadau gorau iddynt a brysiwch yn ôl.

BWYD BLASUS ALISON: Llongyfarchiadau i Alison Edwards ar lwyddo mewn cystadleuaeth coginio a gynhaliwyd gan y Bwrdd Nwy. Cylch Gwynedd yw'r cam nesa' a dim ond dwy sydd yn cael mynd o'r ardal yma. Dymuniadau gorau iddi.

RHAI O BLANT YR YSGOL YN LLYDAW: Mae 35 o ddisgyblion o'r ysgol wedi mynd ar daith gyfnewid i Lydaw am ddeng niwrnod. Mae Mrs Edwards, Mrs Nan Williams a Mr Huw Rhydwen Williams, wedi mynd gyda hwy.

CAPTEINIAID YR YSGOL: Mae capteiniaid ac is-gapteiniaid wedi eu dewis am y flwyddyn nesaf. Penodwyd Peter Sharpe yn gapten y bechgyn a Lynne Jones yn gapten y genethod. Dewiswyd Delyth Jones a Susan Morris yn is-gapteiniaid y genethod. A Rheinallt Parry a Gwyn Morris yn is-gapteiniaid y bechgyn.

GŴYL WERIN: Aeth bws o'r ysgol i ysgol Syr Hugh Owen nos Wener, Hydref 5, i weld y 'Ficar', 'Maraca' a 'Chwyldro' yn perfformio. Roedd y noson wedi ei threfnu fel rhan o ŵyl werin Caernarfon.

TIMAU SGÏO LLWYDDIANNUS: Aeth timau sgïo yr ysgol i Blas y Brenin ddydd Iau Hydref 4 i gystadlu yng ngŵyl sgïo ysgolion Gwynedd. Daeth tîm iau yr ysgol (dosbarth 1 a 2) yn ail, tîm canol (dosbarth 3 a 4) yn gyntaf, a'r tîm hŷn yn gyntaf. O ganlyniad, enillodd yr ysgol Gwpan Arnold, fel y tîm mwyaf llwyddiannus allan o'r 11 tîm oedd yn cystadlu.

Fe chwaraeodd pedwar o fechgyn yr ysgol i dîm Ysgolion Arfon dan 15 oed yn erbyn Môn, sef Stuart Williams, Llanrug, Neil Roberts, Brynrefail, Terry Saynor, Llanberis ac Alwyn Williams, Bethel. Arfon enillodd y gêm 2-1 gydag Alwyn Williams yn sgorio'r ddwy gôl i Arfon.

Yn gynharach yn y mis fe chwaraeodd Stuart Neil a Terry i dîm Ysgolion Gwynedd yn erbyn Ysgolion Clwyd – colli wnaeth Gwynedd 2-1. Fe aeth Stuart ymlaen i'r gêm dreial derfynol ac fe'i dewiswyd i garfan Ysgolion Gogledd Cymru.

Fe chwaraeodd Stuart i dîm Gogledd Cymru yn erbyn bechgyn Manceinion – colli oedd ei hanes 2-1 ond fe gafodd Stuart gêm eitha da. Llongyfarchiadau iddo – mae'n 'nawr wedi chwarae pêl-droed a chriced i Ysgolin Gogledd Cymru.

## CHWILIO AM WAITH?

Mae Adran Addysg Gwynedd yn edrych am bobl i baratoi deunydd dysgu i ysgolion y sir.

## PA FATH O WAITH?

Bydd angen creu defnyddiau gwreiddiol, ymchwilio, cyfieithu, arlunio, cynhyrchu tapiau sain a fideo ...

## YN LLE?

Canolir y Cynllun (a weinyddir mewn cydweithrediad â Chomisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu) yng Nghaernarfon, ond bydd nifer o swyddi wedi'u lleoli ledled y sir.

## MAE ANGEN

CYFIEITHWYR – yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangefni.
YMCHWILWYR – yn Llangefni, Llandudno.
ARLUNWYR – yng Nghaernarfon.
TEIPYDDION – yng Nghaergybi, Llangefni, Caernarfon.

Bydd yn rhaid i bawb fod wedi cofrestru'n ddi-waith a bod wedi derbyn budd-dâl diweithdra am 6 mis (os ydych dan 25 oed) neu 1 flwyddyn (os ydych dros 25).

Am ragor o fanylion, cysylltwch **heddiw** â: Mr. J. Eryl Thomas, Prif Swyddog Gweinyddol, Adran Addysg Gwynedd. (Caernarfon 5831)

## PINACL '84

*Mae'r Urdd wrthi'n trefnu digwyddiad unigryw fel uchafbwynt cyffrous i Wythnos Ddyngarol yr Urdd. Ym Mhafiliwn Corwen ddydd Sadwrn, Tachwedd 24, fe gynhelir Rali — Pinacl '84 — lle disgwylir rhai cannoedd o aelodau'r Urdd a phlant Ysgolion Sul i ddod ynghyd. Trefnir sesiwn arbennig ar gyfer y plant yn ystod y prynhawn, ac yna Disgo'r Pinacl i'r oedran hŷn yn yr hwyr.*

*"Plant dan anfantais" yw thema Wythnos Ddyngarol yr Urdd, ac fe ddilynir y thema hon yng ngweithgareddau'r Pinacl. Bydd hefyd yn gyfle i gyflwyno eitemau fyddai'n crisialu ffyddlondeb yr Urdd dros gyd-ddyn a Christ i'r aelodau.*

*Yno i ddiddanu cynulleidfa'r prynhawn bydd Plwmsan y Twmffat Twp a Syr Wynff ap Concord y Bos; Delwyn Sion a'i Chwadods; Plethyn; Pererin; plant Ysgol Pendalar; Adran Ysgol Rhydypennau, Aberystwyth; Adran Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych; a Kevin Adams o Lanelli. Yno i gadw trefn ar y cyfna bydd Sulwyn Thomas, Radio Cymru. Sicrheir mynediad i sesiwn y prynhawn drwy archebu tocynnau rhad ac am ddim ymlaen llaw. Y cyfan a ofynnir yw i bob deilydd tocyn gyflwyno anrheg o gêm neu degan, a chyflwynir y rhain wedyn i gartrefi neu ysgolion Plant dan Anfantais.*

*Yn ystod yr hwyr cynhelir Dawns y Pinacl gyda Ficar, Pethma, Pererin Trydanol a Disgo Mic ar y Meic. Neilltuir unrhyw elw a wneir o'r Ddawns eto er lles Plant sydd dan Anfantais.*

# ADLONIANT

## NOSON ROC – GŴYL WERIN CAERNARFON



*'Y Ficar' ar lwyfan Ysgol Syr Hugh Owen.*

**Nos Wener, Hydref 5 fel rhan o Ŵyl Werin Caernarfon cynhaliwyd noson roc yn Ysgol Syr Hugh Owen, gyda Chwyldro, Maraca a'r Ficar yn perfformio. 'Roedd llawer o ieuenctid ysgolion yr ardal yn barod i flasu'r awyrgylch. Dechreuodd y noson gyda Disgo Madog ond derbyniad ddigon siomedig a gafodd gan fod y foliwm yn isel a'r cydbwysedd cerddorol yn wael.**

Cynhesodd y noson pan ddaeth Chwydro ar y llwyfan. Dyma grŵp weddol newydd o Ysgol Syr Hugh a ffurfiwyd ar gyfer Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan eleni. Anodd oedd i grŵp mor ddi-brofiad gychwyn y noson, ond llwyddodd y prif leisydd i gael sylw'r gynulleidfa. 'Ffolineb' oedd enw'r gân agoriadol, dyma ddewis doeth gan fod y gerddoriaeth yn fachog. Tuedd oedd i berfformio fel unigolion yn hytrach nag fel grŵp, ond wrth gwrs, diffyg profiad oedd yn gyfrifol am hyn. Braidd yn unffurf oedd y perfformiad gyda phrinder yn amrywiaeth eu caneuon. Mater o amser a phrofiad yw llwyddiant Chwyldro, yr oedd gwelliant pendant yn eu perfformiad yma i gymharu â'r un yn y Steddfod. Grŵp addawol iawn.

Y grŵp nesaf ar y llwyfan oedd Maraca o Benygroes. Hawdd dweud fod â'r rhain lawer mwy o brofiad. Roeddynt yn llwyfannu'n dda ac roedd personoliaeth atyniadol Robin yn denu cefnogwyr. Roedd y grŵp yn hollol gartrefol ar y llwyfan. Y gân a gafodd y derbyniad gorau oedd 'Uffern ac yn ôl' gydag ymroddiad llwyr y grŵp i'w perfformiad. Mae ganddynt ddawn gerddorol neilltuol, a chydbwysedd da rhwng y gwahanol offerynnau. Roedd ymateb y gynulleidfa yn aruthrol ac roedd hyn yn ennyn brwdfrydedd y grŵp.

Yna dyma gyrraedd uchafbwynt y noson – perfformiad gan Y Ficar. Dyma grŵp proffesiynol iawn a chafwyd perfformiad gwych fel y disgwylid ganddynt. O'r record ddiweddaraf 'Yn Dal i Gredu' roedd dwy gân yn sefyll allan. Un o'r rhain oedd 'Rhy Hwyr' – cân arbennig o ffynci ble roedd yr offerynwyr yn cael cyfle i arddangos eu dawn. Y gân arall oedd 'Propaganda' gyda'r alaw wreiddiol o waith Arfon Wyn. Dyma gân wych gyda phwrpas i'w geiriau. Mae'r Ficar wedi cael troëdigaeth o ran gwell, a bellach mae neges yn eu caneuon.

Cafwyd noson ardderchog gyda pharodrwydd y gynulleidfa i ymateb yn cyfrannu at lwyddiant y noson. Ar ran ieuenctid Caernarfon a'r cylch hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r rhai a drefnodd y noson, a mawr obeithiwn y bydd nosweithiau cyffelyb yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos.



*Ymateb y dorf i'r grŵp 'Maraca'.*



*Aelod newydd o'r 'Ficar'!*

# Adolygiadau gan

Bethan Jones
Manon Williams

## GŴYL SHANDI-MAN

Cynhaliwyd Gŵyl Shandi-Man, y cyntaf o'i bath i gael ei chynnal yn y 'Majestic', Caernarfon am dridiau ganol fis Hydref. Ar y nos Fercher cafwyd perfformiad gan Y Ficar, Riverside Jass Band ac Aswad. Siomedig oedd perfformiad Y Ficar i'r rhai sydd wedi arfer gweld a chlywed eu perfformiadau graenus a phroffesiynol. 'Roeddynt fel petaent yn llwyfannu am y tro cyntaf, 'roedd nerfusrwydd wedi cael y gorau arnynt. Ond i fod yn deg, 'roedd y sefyllfa yn un anodd oherwydd 'roedd y gynulleidfa yn anghyfarwydd ac yn un ddi-Gymraeg.

Y perfformiad nesaf oedd Riverside Jass Band – i'r rhai sydd â diddordeb yn y math yma o gerddoriaeth 'roedd y safon yn arbennig o uchel. Ond cyfran fechan iawn oedd yn ymddangos wedi eu mwynhau.

Prif grŵp y noson oedd Aswad, grŵp wedi ei leoli yn Llundain. Grŵp proffesiynol ac ôl llafur ar eu cerddoriaeth. 'Roedd awyrgylch drydanol yn cael ei chreu, ac 'roedd ymateb y gynulleidfa yn wefreiddiol. O'i chymharu â pherfformiad 'Moving Hearts' ar y nos Fawrth noson ddigon siomedig ydoedd, ond eto i w chymharu â nosweithiau sy'n arfer cael eu cynnal yn yr ardal 'roedd yn anhygoel.

## CLWB IEUENCTID BETHEL





*Aelodau'r clwb yn plygu'r Eco.*

Eleni mae Clwb Ieuenctid Bethel yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos – arwydd sicr bod y clwb yn ffynnu ac yn ennyn diddordeb ieuenctid y pentref.

Arweinir y clwb gan Richard Lloyd Jones gyda chymorth Nerys Roberts a phwyllgor o hanner dwsin o blith yr aelodau. Ar gyfartaledd bydd oddeutu deugain o'r hanner cant o aelodau yn mynychu'r clwb ac eisoes mae nifer o weithgareddau wedi cymryd lle.

"'Rydym wedi cael trip i Ganolfan Hamdden Deeside ac wedi talu ymweliad i bwll nofio Bangor. Cafwyd noson ddiddorol i'r merched pan ddaeth arbenigwraig i'r clwb i ddysgu coluro," meddai Judith Owen.

Yn ôl yr arweinydd mae nifer y merched ymhlith yr aelodau wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar – sy'n newydd calonogol iawn yn enwedig i'r bechgyn! Menter arall sydd wedi profi'n boblogaidd yw rhedeg bar coffi yn y clwb dan oruchwyliaeth Nerys Roberts.

Mae gweithgarwch y clwb yn sicr wedi ennill cefnogaeth y rhieni. Yn ddiweddar derbyniwyd rhodd o ugain punt gan y Pwyllgor Carnifal a defnyddiwyd yr arian i brynu recordydd cassette i'r clwb. Ar hyn o bryd mae aelodau'r clwb yn brysur yn trefnu taith feicio noddedig gyda'r bwriad o ddefnyddio'r nawdd i gynnal cyngerdd a chinio Nadolig i henoed y pentref.

Llongyfarchiadau i'r clwb am ei weithgarwch a diolch ar ran yr Eco i'r aelodau am eu parodrwydd i'n cymorth bob amser pan ddaw noson plygu'r Eco.

**RHAGOR O SIBRYDION**

**GWYLIAU YN AWSTRIA:** Ddiwedd mis Awst, aeth deg ar hugain o blant o'r ysgol ynghyd â disgyblion o ysgolion eraill ar drip yr Urdd i Awstria ac yn ôl pob hanes cawsant amser ardderchog. Mae ein diolch yn fawr i'r ddau athro a aeth gyda hwy, Mr Harri Jones a Mr Iwan Arfon Jones.

**Cronfa Achub y Plant:** Ysgolion Gwynedd. Anfonwyd siec o £200 at y gronfa arbennig hon wedi ei gasglu trwy amrywiol weithgareddau dosbarth VI ac hefyd fel elw diwrnod o 'Fabolgamau Gwirion' a gynhaliwyd ar ddiwedd tymor yr haf. Nod y Gronfa yw cyrraedd targed o £10,000 at yr achos da hwn, ac eisoes casglwyd £6,000.

**Os oes modd i'r Eco roi cyhoeddusrwydd i unrhyw weithgaredd ieuenctid ym mro'r Eco – yna cysylltwch â'r gohebydd.**

## POBL WRTH EU GWAITH –

# GWEITHDY SLING

**Dy gofio 'r'ym yn un o flychau'r fro,**
**Yn hardd dy lun, a sglein dy dderw hardd,**
**Yn cymell plant yr Arglwydd do 'rôl to,**
**At hen ffynhonnau gras y dwyfol Ardd;**
**Y fangre fu yn denu'r hoelion wyth**
**I draethu gwirioneddau gair y nef,**
**A phrofi blas a grym y dwyfol ffrwyth,**
**Dishysbydd ddoniau Ei drugaredd ef:**
**Hen dabernacl gras, O! gwyn dy fyd,**
**Os ydwyt heddiw'n weithdy seiri coed,**
**Ai onid saer oedd Ceidwad plant y byd?**
**Ac yn ei weithdy bu yn cadw'r oed.**
**Diolchwn am hen weithdy teulu'r ffydd,**
**Fu'n gymorth plant y llawr o ddydd i ddydd.**

Cyfeirio at Y Tabernacl, Deiniolen y mae'r pennill uchod, 'Capel Wesla' chwedl trigolion Deiniolen. Yn 1863 yr adeiladwyd y capel cyntaf. Roedd eisteddleoedd ar gyfer 200 a chostiodd £400. Byr fu ei oes a rhaid oedd symud i safle arall yn 1874. Costiodd y capel hwnnw £624 a gallai 40 o bobl yn ychwanegol eistedd yno. Yn 1981 rhaid oedd i'r aelodau wneud penderfyniad anodd. Oherwydd cyflwr yr adeilad a'r baich cynyddol ar ysgwyddau cynulleidfa oedd yn lleihau bob blwyddyn rhaid oedd cau'r drws. Fel llawer i gapel arall rhoddwyd Y Tabernacl ar y farchnad.

Bu'r drws ynghau am amser, ond ychydig dros flwyddyn yn ôl agorwyd y drws unwaith eto a bellach y mae'r hen gapel yn atseinio o sŵn morthwyl a llif drydan. Uwchben y drws y mae hysbysfwrdd sy'n cyhoeddi – "Sling – golygfeydd i deledu a ffilm". Gadwch i ni fynd i mewn a chael sgwrs â'r cyfeillion sy'n gweithio yno.

Y mae dau, Dafydd Richards sy'n 23 oed, a'i ewythr, Glyn Richards, sydd ychydig yn hŷn, yn hanu o Sling Tregarth. Brodor o Aber yw Neil Davies, 22 oed, tra mae Bryn Jones, 19 oed, yn byw rhyw ganllath i ffwrdd. Y mae un arall, Keith Richards, o Fangor, i'w weld o bryd i'w gilydd yn y gweithdy.

"Pam galw'r cwmni yn 'Sling'? – dyna'r cwestiwn cyntaf a ofynnais i Dafydd Richards. "Yr oeddem mewn cryn benbleth. Yr oeddem eisiau enw byr," meddai, "ond enw a fyddai'n ddigon hawdd i'w Saeson ei ynganu. Gan fy mod i a'm hewythr yn dod o'r Sling dyma ddewis hwnnw."

Adeg fy ymweliad yr oedd Neil Davies yn brysur yn torri cerrig beddau, ond rhag i chwi feddwl bod Neil yn saer maen, prysuraf i ddweud mai polisteirin yw defnydd y cerrig beddau. A dyna sy'n nodweddu setiau teledu a ffilm. Maent wedi eu gwneud o ddefnyddiau digon cyffredin a thila ambell dro, pren rhan fwyaf. Mae'r gwaith gorffenedig er hynny yn arbennig o real. Cewch gyfle i weld gwaith Neil a'i gydweithwyr ar S4C yn ystod y misoedd nesaf, oherwydd hwy sydd wedi adeiladu golygfeydd ar gyfer y ddwy gyfres, 'Hufen a Moch Bach' a 'Minafon'. Fe'i cewch hi'n anodd credu mai yn yr hen Dabernacl yr oedd cegin y ffermdy yn 'Hufen a Moch Bach'.

Yn ogystal â setiau ar gyfer y ddwy raglen a enwyd eisoes yma yr adeiladwyd golygfeydd ar gyfer 'Gwely a Brecwast', 'Llwyfan Lliwgar', 'Canu Penillion', a 'Siarabach'.

Un a fu'n gweithio'n brysur yn ystod ffilmio a darlledu 'Siarabach' yw Bryn Jones. Bu ar daith a dyma beth o'i hanes –

"Parhaodd y daith am fis, ac ymwelwyd â Benllech, Bethesda, Llansannan, Ffestiniog, Bala, Llanbrynmair, Tregaron, Cenarth, Crymych, Y Tymbl, Penscynor a Rhymni. Fy ngwaith i oedd adeiladu'r set ar gyfer y rhaglen, ac yna ei thynnu i lawr ar gyfer symud i'r ardal nesaf. Cymerai rhyw 2 awr i'w hadeiladu a'r un faint i'w thynnu i lawr bob tro. Roedd y rhaglen yn rhoi cyfle i bobl ifanc i ddangos eu doniau. Cefais brofiad o fyw oddi cartref am rai dyddiau ar y tro, ac o gydweithio gyda chriw ffilmio."

Nid yw cerddediad ein cyfeillion wedi ei gyfyngu i Gymru, oherwydd bu Dafydd Richards yn Swydd Efrog yn ddiweddar, yn gweithio i gwmni yn ffilmio "The Aura" ar gyfer y dinema. Profiad i Dafydd oedd "cael bod yng nghwmni actorion fel Tom Bell a Clive Wood." Ar hyn o bryd y mae Dafydd yn cynorthwyo'r un cwmni gyda ffilmio "Shady", eto ar gyfer y sinema.

Dyma ni wedi dod i derfyn ein hymweliad â'r hen gapel. Ple cynt yr oedd y Tabernacl, 'un o flychau'r fro', yn gyfrwng i fwydo yr hen saint, heddiw y mae'n helpu i fwydo a diddori gwerin Cymru drwy focs tra gwahanol. Arwydd o'r amserau dybia i.


D.J. Evans, Clwt-y-bont a agorodd hyn o ysgrif ac ef sy'n ei chloi:

**Lle cynt bu sŵn addoli,**
**Daw heddiw sŵn y seiri,**
**Y capel bach ar newydd wedd,**
**A'r allor wedi oeri.**

**Cyflawnodd ei ddyletswydd**
**Yn deilwng iawn i'r Arglwydd,**
**A rhoes i'r saint wasanaeth hir,**
**Fel teml lân a dedwydd.**

**Er iddo newid dwylo,**
**Boed bendith arno eto,**
**I fod yn gymorth er lleshad,**
**I'r sawl fo ynddo'n gweithio.**

**Yn gymorth i'r cyfryngau,**
**A'r famiaith ar ei gorau,**
**Ac fel y dyddiau gynt a fu,**
**Yn llwyfan i'w hallorau.**



*Dafydd Richards a Bryn Jones yn adeiladu set 'Siarabang'.*

# PENISARWAUN

**Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)**

EGLWYS SANTES HELEN: Cafwyd cyfarfodydd Diolchgarwch llewyrchus iawn yn y bore, cafwyd Cymun Bendigaid a chymerodd plant Ysgolion Sul y pentref ran yn y gwasanaeth. Roeddynt wedi cael eu hyfforddi gan Mrs Ann Evans a Mrs E. Jones. Derbyniodd y Ficer eu rhoddion o ffrwythau a llysiau ac fe anfonwyd hwy i gyd i Gartref Y Frondeg yng Nghaernarfon. Fe anfonwyd y casgliad £9.16 i gronfa Ethiopia. Roedd yr eglwys wedi cael ei haddurno – diolch i'r rhai a fu'n helpu ac hefyd i bawb a anfonodd roddion.

BEDYDD: Dydd Sul Medi 23 bedyddiwyd Benjamin a Mathew, meibion Mr a Mrs Trefor Rowlands, Bryn Howell, ac hefyd ddydd Sul, Hydref 7, bedyddiwyd Rachel, merch fach Dawn a Glyn Morris, Siop Gron gynt gan y Ficer. Bendith Duw fo arnynt ac ar y teulu.

CLEIFION: Dymunwn wellhad buan i Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion.

Yn ei ôl yn yr ysbyty yw hanes Mr O.C. Roberts, ein horganydd. Brysiwch fendio i gyd.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs E. Williams, Glyn Euron yn ei phrofedigaeth wedi colli ei hewythr yn Llanrug.

LLONGYFARCHWN: Mr Alun Mowll, 19 Bryntirion a Mr Alwyn Williams, 23 Bryntirion ar gyrraedd ei 18 oed.

Llongyfarchwn Mrs Eirlys Williams, 23 Bryntirion ar fod yn nain – ganwyd merch fach, Nicola, i Janice a Jeff.

DYMUNIADAU DA: i Dylan Williams, Careb. Mae Dylan wedi mynd i ffwrdd i ddechrau ar i yrfa yn y Fyddin.

LLONGYFARCHWN: Mr W.H. Gruffydd, Tros y Waun am ennill y wobr gyntaf gyda'i geffyl gwedd 'Jim Chance' yn Wembley yn ddiweddar.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod dydd Mawrth, Hydref 16. Cynhaliwyd Moes a Phryn. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Williams a Mrs M. Davies. Croesawyd dwy aelod newydd, Mrs Wood, Bryn Arthur a Mrs Ward, Fflat King Arthur. Fe gasglwyd £36.16 tuag at Gyngor yr Henoed Gwynedd. Diolch i'r rhai a aeth o amgylch i gasglu ac i bobl y pentref am eu cefnogaeth. Dymunwyd gwellhad buan i Mr N. Abbot, Bryntirion sydd yn yr ysbyty a hefyd i Mr B. Porter sydd yn wael gartref. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Tachwedd 20.

Dymunwn wellhad buan i Mr R. Turner, Tyddyn Difyr. Hefyd da gweld Owen Jasper yn gwella ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty.

CLWB Y MERCHED: Cafwyd cyfarfod difyr iawn nos Fawrth, Hydref 23, yng nghwmni Mr Tegid Roberts, Arwel. Rhoddwyd y te gan Mrs P. Williams a Mrs G. Lewis, y ddwy o Lys y Gwynt. Enillodd Sioned Wyn y raffl. Diolchodd Mrs N. Jones, Meillionydd i bawb. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 27.

TRIP BLYNYDDOL I GAER: Bydd y trip yn mynd i Gaer ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 8, yn cychwyn am 8.30 y bore. Os oes rhywun eisiau ymuno, cysylltwch â Mrs M. Williams, Carrog Waen, Penisarwaun. Rhif ffôn: Llanberis 870716.

BRIGAD AMBIWLANS, CADLANCIAU SANT IOAN, SEREMONI GOFRESTRU – Deiniolen a Phenisarwaun:

Gwasanaethwyd gan y Parch P. Jones, Ficer, Pentraeth. **Penisarwaun:** C.L. Sioned Roberts, Elaine Lewis, Sioned Williams, Eurgain Haf Evans. **Deiniolen:** C.L. Eiriona Owen, Nia Glyn Davies, Sharon Ann Jones, Dylan Wyn Williams.

Dymuna aelodau o'r uchod ddatgan eu diolchgarwch i'r cyfryw am eu cydweithrediad.

GYRFA CHWIST: Cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Hydref 19, yr elw at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys. Yr MC oedd Mr S. Griffith, a'r enillwyr oedd:
1. Mrs S. Maddox, Penisarwaun, 2. Mr D. Lloyd Hughes, Dinorwig, 3. Mr Bryn Griffith, Penisarwaun, 4. Mr Philip Lea, Llanrug. Hanner uchaf: Mrs P. Williams, Penisarwaun. Booby: Y Parch a. Edwards, Clwt-y-bont.

Enillwyd y raffl gan: 1. Mrs D. Hughes Jones, Llangefni, 2. Mr S. Griffith, Penisarwaun.

Cynhelir y Gyrfa Chwist nesaf nos Wener, Tachwedd 16 am 7.30.

YSGOL TANYCOED: **Diolchgarwch:** Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch brynhawn Gwener cyn cau am wyliau'r Hydref; casglwyd £17.14 tuag at Gronfa Achub y Plant.

**Yr Urdd – Pwysig!** – Yn unol â'r drefn mewn amryw o ardaloedd bwriedir i'r gangen leol, sydd yn gangen ysgol, gael ei hail-ffurfio yn Adran Bentref. Golyga hyn y byddai newid yng ngofalaeth yr Adran, ac yn amseroedd cyfarfod yr Adran.

Gofynnir i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol y mudiad yn yr ardal gyfarfod yn Ysgol Tanycoed, nos Fercher, Tachwedd 7, am 7 o'r gloch.

**YN EISIAU: Gohebydd newydd i'r Eco ym Mhenisarwaun. Cysylltwch â Tony Elliott os gwelwch yn dda.**

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Eglwys Annibynnol Ebeneser, Deiniolen oedd cyrchfan aelodau a phlant Eglwysi Dosbarth Deiniolen eleni i'w Cyfarfod Blynyddol cyd-enwadol. Cynrychiolwyd Ysgol Sul Brynrefail yng nghyfarfod y prynhawn, mewn datganiad ar lafar ac ar gân, gan ddosbarthiadau Mrs Carol Houston a Miss L.P. Roberts. Yn cymryd rhan yr oedd Marian Jones, Nicola Houston, Jacqueline, Glenda a Paula Walters, Joanne, Maria ac Eira Wyn Evans ac Alwen Jane Jones. Casglwyd y swm o £20.20 gan Joanne Evans, Glenda Walters, Alwen a Caron Jones a'i drosglwyddo ar ran Eglwys Brynrefail i Gronfa Cymdeithas y Beiblau.

YR ŴYL DDIOLCHGARWCH: Cafwyd gwasanaethau o ddiolch yn Eglwys M.C. Brynrefail ddydd Sul, Hydref 14 dan ofal y gweinidog, y Parch John Morris. Yn oedfa'r bore bedyddiwyd lestyn, mab bychan Mr a Mrs Gwyn Williams ac ŵyr i Mr a Mrs G. Owen, Tros yr Afon. Yng nghyfarfod y prynhawn cafwyd gwasanaeth o ddiolch gan blant ac ieuenctid yr Eglwys dan ofal y gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan Mrs Carol Houston. Pregethwyd yn oedfa'r hwyr gan y Parch John Morris. Yr organyddes yn y tri chyfarfod oedd Miss Lowri P. Roberts.

CLWB Y MAMAU: Cafwyd noson ddifyr dros ben yng nghwmni Mrs Jinnie Roberts yn dangos seldiau o'i gwyliau yn Yugoslavia. Etholwyd Mrs Audrey Roberts i'r gadair am y flwyddyn, a rhoddwyd croeso i Mrs Ann Parry fel aelod newydd. Darparwyd y te gan Audrey Roberts a Shirley Roberts – rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams ac fe'i enillwyd gan Mrs Mair Williams.

Yr ymweliad blynyddol i siopau Caer at y Nadolig – derbynnir enwau gyda blaendâl o 50c gan Val Davies a Sheila Williams erbyn **Tachwedd 12** (sef dyddiad y cyfarfod nesaf). Bwriedir trefnu'r ymweliad ar gyfer **Tachwedd 24.**

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd parti 'Tupperware' dan arweiniad Mrs Llinos Mai Dobson o Edern. Darparwyd y te gan Pat Jones, Carol Houston, Betty Owen a Helen Jones. Croesawyd Anne Parry fel aelod newydd, rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Griffiths ac fe'i enillwyd gan Sheila Williams.

CLWB PEDWARUGAIN: Mewn pwyllgor a gynhaliwyd ar Hydref 26, penderfynwyd atal casgliadau wythnosol o Hydref 19 hyd ddiwedd y flwyddyn. Fe hysbysir bob aelod o ddyddiad y cyfarfod blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr, 1985, pan fydd cyfle i drafod a phenderfynu ynglŷn â dyfodol y clwb.

NOSON GUTO FFOWC: Mae tân gwyllt eisoes wedi eu prynu ac fe obeithir trefnu'r noson fel yr arfer yn y cae chwarae, nos Lun, Tachwedd 5. Byddwn yn tanio'r goelcerth am tua 6.30 – bydd croeso cynnes i bawb.

## DIOLCHGARWCH BRYNREFAIL



*Tynnwyd y llun uchod yng nghyfarfod Diolchgarwch Brynrefail M.C. pnawn Sul, Hydref 14, gan y Parch John Morris.*

## NEUADD I BENISARWAUN

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar ym Mhenisarwaun i drafod y cwestiwn o adeiladu neuadd yn y pentref. Cadeirydd y cyfarfod oedd y Cynghorydd Pat Larsen a chafwyd cyfraniadau gan Mr Geraint Elis ar ran y Cyngor Sir, a'r Parch Aled Edwards ar ran yr Eglwys.

Clywsom fod 5 dewis sef:

**1. Gwnewud heb neuadd, gan ddefnyddio Neuadd yr Eglwys, neu'r Ysgol.**
**2. Disgwyl i'r Ysgol newydd gael ei hadeiladu gan sicrhau y bydd hi'n ysgol gymuned gyda neuadd bwrpasol ar gyfer y pentref.**
**3. Trafod dyfodol Neuadd yr Eglwys gyda swyddogion yr Eglwys.**
**4. Trafod gyda pherchennog Clwb Eryri y syniad o gael defnyddio ystafell yn y clwb.**
**5. Adeiladu neuadd o'r newydd ar lain o dir sydd eisoes ym meddiant y pentref.**

Penderfynwyd symud ymlaen i ystyried y posibiliadau, gan ethol pwyllgor o bentrefwyr dan gadeiryddiaeth Miss Phyllis Ellis. Etholwyd Mr Meirion Richards yn Ysgrifennydd a Mr Huw Williams yn Drysorydd. Sicrhawyd y byddai nifer o arbenigwyr yn y maes adeiladu ar y pwyllgor.

Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod ers hynny gan benderfynu ar ddewis 5 uchod, sef adeiladu neuadd newydd ar y tir yn y pentref. Beth bynnag fydd cost y neuadd, bydd yn ofynnol i'r pentrefwyr gasgu chwarter o'r arian. Un o'r dulliau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yw 'Clwb 100'. Bydd pob aelod yn talu £6 y flwyddyn (neu 50c y mis), a bydd y Clwb yn sicrhau £300 y flwyddyn i gronfa'r Neuadd gan gynnig £300 yn ôl i'r aelodau fel gwobrau misol. Os ydych yn awyddus i ymuno, cysylltwch â **Huw Williams, 2 Tan-y-ffordd neu Leslie Larsen, Llygad-yr-haul.**


**CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR**
**CANGEN BRO LLEU**
Bydd Lis Hughes-Jones (o Gwmni Brith Gof) yn cyflwyno portread o'r emynyddes
**ANN GRIFFITHS**
yn neuadd Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes
Nos Wener, Tachwedd 16, 1984
am 7.30
Tâl mynediad: 70c Plant: 35c
CROESO I BAWB

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

Wil a Val Guy
**TREFLYN STORES**
**BETHEL**
*Ffôn: Y Felinheli 670237*
Stoc helaeth o ddillad plant
Legwarmers
Anklewarmers
Snwcer – sialc, tips
Ciws Riley – a byrddau hefyd os dymunwch
Teganau, Diodydd, Melysion, Bwydydd a Dafedd

**GWYNETH ROBERTS**
**Siop**
**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS** 870491
**Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!**

STORFA
**Mace**
John a Roberta
**Griffith**
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd
Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

**NORMAN JONES**
4 Tai Disgwylfa
**LLANRUG**
Ffôn:
CAERNARFON 3476
**GLANHAWR FFENESTRI**
* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a thu allan

# MORRIS WYN WILLIAMS

## (Ganwyd Medi 4, 1894)

# Cofio y Bardd-Bregethwr 'Meurig Wyn'

### (Erthygl gan ei chwaer, Mrs A. Ffoulkes-Jones, Cwm-y-glo)

**Ym mynwent Capel Mawr, Llanrug, wrth y llidiart, y mae bedd y Bardd Bregethwr Morris Wyn Williams, mae Carreg y Fyddin wrth droed y bedd**

Rhoddodd ei fryd ar fod yn bregethwr yn fore iawn. Bu'n gweithio yn y chwarel am gyfnod a phan dorrodd y Rhyfel Gyntaf allan, er heddychwr oedd, wrth weld ei gyfeillion yn ymadael i'r fyddin teimlai na allai aros heb wneud ei ran i ymladd dros ei wlad, sef Cymru yn bennaf. Felly ymunodd â'r fyddin ac anfonwyd ef i'r Dwyrain Canol, 'Yr Aifft'. Un o'i gyfeillion yno oedd y Parch Tom Nefyn Williams.

Ar ôl peth amser cafodd ei daro'n wael ac yr oedd yn dioddef gan afiechyd yr ysgyfaint, ac afiechydon eraill. Bu'n yr ysbyty yn yr Aifft ac yna anfonwyd ef adref mewn Llong Ysbyty i Lundain. Bu yno am amser ac yna i Bryn Seiont, Caernarfon, lle bu am ysbaid. Yr oedd fel pe'n dechrau gwella ychydig, a'i fryd o hyd am y weinidogaeth.

Aeth i Ysgol y Myfyrwyr yng Nghlynnog o dan yr Athro Ddr. Dewi Williams, yr hwn oedd yn meddwl fod iddo ddyfodol disglair. Barddonai lawer ac enillodd aml wobr.

Un tro cafodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llanrug ar y testun 'Y Pellebyr Diwyfr', sef yr Orsaf Radio 'Marconi' ar fynydd Cefn Du, oedd y pryd hynny yn rhyfeddod mawr, gan anfon negesâu dros y dŵr i'r Amerig a gwledydd eraill. Yr oedd eraill yn ymgesio, rhai mewn oedran teg yn barddoni ers llawer blwyddyn. Safai arholiad yn y Festri, Capel Mawr, am rhyw ddwy awr, a dyma ei ymgais llwyddiannus ef.

Yn ystod ei fywyd byr darllenodd ac astudiodd gan ddal i obeithio am iechyd gwell. Yr oedd yn reidio beic i Glynnog ac yn lletya yno ar hyd yr wythnos. Mae bron oll o'r efrydwyr oeddynt yno ar unwaith ag ef wedi ein gadael ers to – da yw eu cofio – Y Parch Henry Rees Owen, Y Parch John Llewelyn Williams, Y Parch Seth Pritchard a'r Parch Alfred Williams, Beddgelert, Y Parch H.R. Williams, ac eraill.

Gwinllan ffrwythlon ynte, ond i hanes Morris Wyn Williams yr hen elyn oedd yn ail afael ynddo, ond mynnai sefyll yr arholiad i fynd i'r Coleg. Yr oedd yn rhy wael i fynd ond anfonwyd y Parch Arfon Jones i'w gartref i roi'r arholiad iddo a'i wylio. Daliodd ei gorff â sgarff amdano i'w gynorthwyo. Fe atebodd y cwbl a phasio'r arholiad i fynd i'r Coleg, gan ei fod eisiau mynd gyda'i gyd-efrydwyr. Yr oeddynt yn disgwyl y canlyniad a mawr oedd eu llawenydd pan ddeallasant iddo basio. Fe anfonwyd 'telegram' oddi wrthynt iddo i'w hysbysu, ond bu farw Hydref 22, 1919, yn 25 mlwydd oed.

Claddwyd ym mynwent y Capel, Llanrug, ar 25ain – 'Mewn Hiraethus Gof o Hyd, Anwyl Fab Mr a Mrs John Williams, Castle View, Llanrug'. Mae ei chwaer yn fyw heddiw yn cofio i adrodd yr hanes, sef Mrs A. Ffoulks Jones, Cwm-y-glo. Canodd 'Glanrhyddallt' ar ei ôl; hefyd E. Arfon Jones, R. Dewi Williams, Clynnog a T.A. Roberts, Penisarwaun.

Gobeithio y cewch rhyw nerth a llawenydd o ddarllen y barddoniaeth er cof amdano a'r gwaith a gyfansoddodd ef ei hun, er mor ifanc ydoedd. Cawn gyfle i weld mwy o'i waith ambell dro yn ôl y galw, o'i ryddiaith a barddoniaeth bore oes.

Da yw gweld hanes ardaloedd lle mae hanes mor ddifyr yn 'Eco'r Wyddfa'. Dyma'r papur newyddion sydd yn cael croeso mewn llawer cartref ac yn cadw pentrefi â'i gilydd, yn enwedig pobl y wlad sydd yn bell o'u bro mebyd, gan pobl gwlad sydd yn y trefi'n byw.

Diolch i bawb sydd yn gweithio i'w gynnal.

Mrs A. Ffoulkes-Jones (Cwm-y-glo)
(chwaer Morris Wyn Williams)

**MARCONI**
**GORSAF Y PELLEBYR DIWYFRAU**
*(sef cerdd fuddugol Morris Wyn Williams yn Eisteddfod Llanrug, 1914)*

**O orsaf arwrol, cywreinwaith celfyddyd,**
**Brenhines dyfeisiau y ddaear wyt ti;**
**Llinynau'th fendithion orseddant yn hyfryd**
**A'th lwybrau dirgelaidd uwch bwrlwm y lli.**
**Ffodd amser a phellter, nid ydyw milltiroedd**
**Blin deithiau mynyddig na rhuad y moroedd**
**Elfenau ystormydd na chri y corwyntoedd,**
**Yn barod i guddio dy fawredd a'th fri.**

**Ryw ddyfais ardderchog i uno y ddeufyd,**
**Gan estyn cysuron fil-murdd ar ei hynt;**
**Ni fedda amynedd i aros am enyd**
**Fe flachia'n fawreddog ar lwybr y gwynt.**
**A ydyw y dwyfol yn sibrwd cyfrinion**
**Gan anfon brysneges ar edyn aelon,**
**A thuedd ddistwr i lesoli marwolion**
**Fel gwyrthiau daionus yr hen amser gynt.**

**Ei thurau ardderchog a'u trem yn fyfyrgar**
**Ar ael y dyffrynoedd gwyrdleision islaw,**
**Fel milwyr talgryfion a thuedd ymladdgar,**
**Nes codi arswyd, ofrusrwydd a braw;**
**Er hynny bydd enw clodforus 'Marconi'**
**Yn fuan yn marchog gwyllt donnau y weilgi**
**Daw eilwaith i adsain dros greigiau Eryri,**
**Yn gri gyffredinol a hedd yn ei law.**

**Hyd eitha'r dwyreinfyd ymlidia eangder,**
**Daw eilwaith i wibio dros fynydd a llan,**
**Ac ni fydd didramwy ddirgelwch y dyfnder**
**Ond ffeithiau safadwy a chlir yn y man;**
**Dyfnderoedd dychymyg a nerth anorchfygol**
**Ymwela a phrysyr gilfachau mordwyol,**
**Dychwela'n odidog a'r wibdiad y wenol,**
**Mor gyflym a distaw y gweithia ei ran.**

**Ehed yn ddirwystr dros faith cyfanderoedd,**
**Achuba drueiniaid o ddyfnder yr aig,**
**Godidog ddefnyddiau a heriant flynyddoedd**
**A'i chadarn arsyllfa a erys fel craig.**
**Ryw flachiad oleuwen i oror Amerig,**
**Ymdrocha, ymruthra, ymloewa fel llurig**
**Fel seren yn syrthio neu ynte'n aredig**
**Yn awyr fry obry gan sugno ei saig.**

**O golofn arhosol, a theyrn teg gwyddoniaeth,**
**Ar man wifr mal gwe a'r y llethrau uwchben,**
**Fel dylif yn chwyddo o nef ysbrydoliaeth**
**Yn dal dwys gymundeb a thrindod y nen;**
**Fel dyn holl dynholiaeth dan aden cymdeithas**
**Daw meibion gwyllt Walia i ganfod ei hurddas,**
**A theimlant fod moliant a theyrnged yn addas**
**I gadw ei choffa rhag suddo dan len.**

**MORRIS WYN WILLIAMS**

Rhai o'r cerddi a gyfansoddwyd er cof am y bardd.

**Ow! resyn, da carasai – roi oes hwy**
**I'r Iesu hardd garai;**
**Ond tyfodd, trwy fywyd difai,**
**I noswyl o hedd, mewn oes lai.**

**Nid i'r gau, ond ar goedd, – byw i'r gwir**
**Bu'r gwas diargyhoedd,**
**A hon yw'r llef o'r nefoedd,**
**Ei fer oes ef, hir oes oedd.**

**R. DEWI WILLIAMS (Clynnog)**

**Cwsg, fy mrawd, o sŵn y ddrycin,**
**Mwy na theimli oerni'r glaw**
**Cwsg, heb delyn yn dy law.**
**Cwsg, tra llif o leufer canaid**
**Gorsedd Duw yn trochi'th enaid**
**Ar fynyddau'r Byd a Ddaw.**

**T.A. ROBERTS**
**(Penisarwaun)**



*Morris Wyn Williams (ar y chwith) gyda dau berthynas iddo.*

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)**

DIOLCHGARWCH: Gan fod Eglwys y Tabernacl ar gau ar hyn o bryd, cynhaliwyd yr ŵyl eleni yn y Ganolfan Gymdeithasol sydd hefyd yn rhan o Ysgol y pentref.

Yn y prynhawn cafwyd pregeth gan Mr Harol Parry Jones, Penygroes, ac yn yr hwyr Mr Llew Hughes, Hyfrydle gymerodd yr awennau gyda Mrs Eluned Hughes wrth y piano.

Tystiodd pawb iddynt gael Sul hyfryd a bendithiol.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn Wrecsam.

LLONGYFARCHIADAU: i Margaret a Gwilym Williams, Bryn ar enedigaeth mab, Keith, brawd i Carys a Terry ac i Mrs Annie Hughes ar fod yn nain unwaith eto.

POBOL Y CWM: Croesawyd Mr Sam Evans, cyn-frodor o'r ardal i gyfarfod o'r aelodau pnawn Iau, Hydref 11. Rhoddodd sgwrs difyr a diddorol ar gyfnod cynnar pentref Nant Gwrtheyrn. Y rheswm fod ganddo gymaint o ddiddordeb yn yr ardal yw oherwydd iddo gael ychydig fagwraeth gan ei nain, sef Mrs Jane Rowlands, a alwyd yn Frenhines y Nant, a byddai'n ymweld â'i nain bron pob penwythnos. Roedd gan y diweddar Tom Nefyn gysylltiad agos â'r ardal, oherwydd i Jane Rowlands gadw tŷ iddo ar ôl iddo golli ei fam. Fel y caeodd y chwareli, daeth terfyn ar oes y pentref, a symudodd y teulu olaf oddi yno yn 1959. Soniodd Mr Evans am y newid ddaeth i'r pentref, pan brynwyd yr ardal gan Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn a sefydlu Canolfan Iaith ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Roedd Mr Evans yno pan agorwyd gyda chymanfa ganu, Gŵyl y Banc, Awst 1983. Diolchwyd iddo gan y Llywydd. Rhoddwyd y te gan Miss M. davies a Mrs R. Parry a'r raffl gan Miss M. Davies ac fe'i enillwyd gan Mrs K. Watkins.

DIOLCH: Dymuna Gwilym a Margaret Williams, Bryn ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Keith.

LLONGYFARCHIADAU: i Wendy a Melfyn Roberts, Glasfryn ar enedigaeth eu merch fach, Delyth Ann. Hefyd i Mr a Mrs Hubert Roberts, Bod Gwynedd, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

– i Marc Williams, Tanrallt, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU OFALUS**

* **Gwasanaeth 7 diwnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**

**D** **L**

**PRITCHARD**
**43 glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

**G. JORDAN**

**CEFN ELAN LLANRUG**

I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen

Ffoniwch:
**CAERNARFON 3581**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## Englyn Buddugol Duach Na Pharddu

Yng ngholofn 'Llythyrau at y Golygydd' yn yr Herald y dois ar draws yr hanes canlynol wedi ymddangos Chwefror 5, 1940. Felly mae dros ddeugain mlynedd wedi pasio. Gallaf gofio'r helynt fel pe buasai wedi digwydd ddoe.

Daeth Mr John Williams i fyw i Landwrog o Lundain yng nghanol y Rhyfel 1939-45. Brawd Mr Gilbert Williams, Rhostryfan oedd John Williams. Yr oedd yn fardd gwych ac yn gritic na fu erioed ei fath. Gallai falu englyn buddugol yn dipia a byddai pawb yn disgwyl llythyr y critic 'J.W. Llundain' fel y galwem ef ar ôl pob Eisteddfod Genedlaethol. Ond yr oedd y galon dyneraf yn curo yn ei fynwes cofiwch. Cafodd barch boneddwr yn Llandwrog er ei fod yn walch am brofocio.

'Rwy'n rhoi'r hanes fel y cefais ef o'r 'Herald'.

Englyn Gwallus

At Y Golygydd, Syr,

Yn y Manion gan Carneddog dair wythnos yn ôl cyhoeddwyd dau englyn a ddyfarnwyd yn orau mewn Eisteddfod a gynhaliwyd tua'r Nadolig yn Slatington, America. Nid oedd gamp ar ddim un o'r ddau, a hoffwn awgrymu i'r Pwyllgor erbyn y tro nesaf gyfyngu cystadleuaeth yr englyn i feirdd eu cyfandir hwy.

"Mwg" oedd testun un o'r englynion dan sylw, a chan fod yr awdur yn hen gynefin a chystadlu ac ennill gwobrau ar hyd a lled y wlad, – neu'r byd, a hefyd yn byw yn un o drefi myglyd Lloegr, dylai fod ganddo englyn cywir, synhwyrol, a graenus ym mhob ystyr, yn rhoddi inni syniad cryno am rai o nodweddion y testun.

Dyma'r englyn:

**MWG**

**Ei arogldarth o'r glo du – a esgyn**<br>**Yn ysgafn i fyny:**<br>**A'i wynt twym yng nghorn y tŷ**<br>**Ni phereiddir a pharddu.**

Aiff J.W. Llundain ymlaen yn ei lythyr fel hyn –

"Nid 'mwg' ydyw 'arogldarth' ac nid o'r 'glo' y ceffir ef. Math o darth neu nwy a gynhyrchir trwy losgi cyffuriau neu goed arbennig ac a ddefnyddir mewn gwahanol ffurfiau neu ddefodau addoli ydyw 'arogldarth' a hyfryd i'w arogleuo. Dyna gyfeiliorni yn y llinell gyntaf, heblaw dywedyd bod y glo yn 'ddu', fel pe byddai glo gwyn neu goch ar ein tanau yn ôl ein dewis.

Yn yr ail linell mynegir y ffaith hynod fod y 'mwg' yn 'esgyn i fyny'. Pwy a glybu erioed am dim yn 'esgyn i lawr'. Sylwer ar ddull yr Ysgrythur, 'Ac angylion Duw yn esgyn ac yn disgyn, heb nac 'i fyny' nac 'i lawr'. Geiriau heb eu heisiau ydyw 'i fyny' bob amser ar ôl 'esgyn'.

Ymddengys i mi fod y bardd ynghanol 'mwg' meddyliol wrth lunio esgyll yr englyn, ac yn fy ngadael innau yn y 'mwg' wrth geisio'i ddilyn.

Gellid deall dwy linell syml fel hyn:

**"Trwy y twll uwchlaw to'r tŷ,**<br>**Y daw hwn heb ei dynnu."**

Dyna wall iaith i ddechrau 'Ni phereiddir' yn lle 'nis pereiddir'. At hynny ceir y gwall 'Crych a llyfn' rhwng 'phereiddir' a 'pharddu'. Gwn mai digon hawdd i'r glust dwyllo bardd weithiau. Pa 'wynt' a berthyn i fwg, a phwy a ddychmygodd erioed am 'bereiddio' gwynt y mwg a hynny a 'pharddu' o bopeth?

Gellir deall ambell syniad yn well trwy ei gyfieithu. Dyma ddisgrifiad y bardd o 'smoke'. 'It's warm wind in the chimney of the house is not sweetened with soot." Y mae'n rhaid i mi dewi Mr Gol., yr wyf mewn 'Blacowt' duach na'r 'glo du' uchod yn feddyliol.

Yr eiddoch J.W. Llundain"

*(Richard Hughes Birkenhead oedd awdur yr englyn.)*

**Cyfarch J.W. Llundain**

Yn Ebrill 1940 ymddangosodd y tri englyn canlynol yn 'Yr Herald' i gyfarch J.W. Llundain.

**Sion Williams, mae sŵn wylo – yn y byd,**<br>**Ac mae'n boen ei wrando:**<br>**Daeth yr heldrin i'n blino –**<br>**Duw a'i gwyr – mae'r byd o'i go.**

**Ystyriaf mai tosturi, – a dwyster**<br>**Distaw ddylai'n sobri:**<br>**A thrwy boen a thrybini**<br>**Y lladdfa fawr, – lleddf wyf fi.**

**Heb ryfel 'roedd yn brafiach – a'm meddwl**<br>**Meiddiaf ddweud, yn llonnach:**<br>**I mi ni bydd hedd mwyach**<br>**Heblaw bedd 'Je Dybiw' bach!**

**Ioan Brothen**

**Englyn 'Hoelion'**

Yn yr un Eisteddfod yn America cafodd Mr Morris D. Jones (Glan Caledffrwd) Llanrug y wobr gyntaf am englyn i 'Hoelion'.

**Un wir hwylus yw'r hoelen, – a gurir**<br>**I gyrraedd ei diben:**<br>**Pery hi yn hir mewn pren,**<br>**Os twll rydd mewn ystyllen.**

**MORRIS D. JONES**

Y mae gan Eben Fardd linell fel hyn:

**"Neu ysu twll mewn ystyllen."**

Caiff y Ceiliog gloi heddiw!

**CEILIOG**

**Y ceiliog, a'i glog liwgar, – yw' crafwr**<br>**Cryfaf ar groen daear:**<br>**Dodwyedig dad adar,**<br>**Cywir ei dôn, cariad iâr.**

**AP DWYFACH**

*Anfonwyd yr englyn canlynol i Mrs Jane Williams, 14 Hafan Elan, Llanrug pan oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed.*

**EICH PROFIAD**

**Heno myfi yw'r hynaf – yn y fro**<br>**Am y fraint diolchaf:**<br>**Yn raddol mi gyrhaeddaf**<br>**Gant ac un os gwynt a gaf.**

*(Isnant yw'r awdur)*

# DINORWIG

*GOHEBYDD — Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)*

DIOLCH: Dymuna Mrs A. Jones, 5 Maes Eilian ddiolch i'r teulu a'r llu cyfeillion a'r cymdogion am eu caredigrwydd tuag ati mewn rhoddion o arian ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn 82 yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mr a Mrs R. Williams, Tan-y-fron a Mrs Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn, Llanrug ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth.

COFION: Anfonwn ein cofion at Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian, yn Ysbyty'r Gogledd, a'r Cynghorydd Robert E. Williams, 12 Maes Eilian sy'n Ysbyty Gwynedd. Gwellhad buan i chwi eich dau.

DOSBARTH WEA: Nos Iau, 18 Hydref bu'r olaf o ddosbarthiadau y WEA am y tymor eleni. Buwyd yn trafod 'Gwerthfawrogi Llenyddiaeth'. Yr athro oedd Mr Ifor Baines, BA, Penygroes a'r Ysgrifennydd Miss Ellen W. Jones, Tŷ Fawnog.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys St Mair, Sardis (B), a Dinorwig M.C., dros Suliau 14 Hydref a Hydref 21.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mr a Mrs Ronell Williams, Tan-y-fron, ym marw brawd Mr Williams, sef Mr Eric Williams, 5 Glanmoelyn, Llanrug, a hefyd Mrs Heulwen Williams, ei briod a'r cysylltiadau teuluol eraill.

TE'R CHWIORYDD: Cynhaliwyd te'r chwiorydd yn Festri Dinorwig M.C. pnawn Iau Hydref 18. Rhoddwyd y te gan Mrs Maggie Evans, Dublin House.

ARCHWILIAD MEDDYGOL: Bu'r canlynol am archwiliad meddygol, Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian, yn Ysbyty Walton, Mr John More, Ysgubor a Mr Robert Parry, Bron y Fferam. Da deall eu bod gartref bellach ac yn gwella.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian ddiolch i'w cyfeillion a'r teulu a'r cymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn yr Ysbyty yn Walton, a hefyd wedi dod adref.

Dymuna Mrs M.A. Jones, 5 Maes Eilian ddiolch i'r llu cyfeillion a'r cymdogion am eu caredigrwydd tuag ati mewn rhoddion o arian ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn 82 mlwydd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

CROESO ADREF: o'r ysbyty i Mr Dave Saunders, Gallod, Fachwen sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Glasgow.

## BETWS GARMON

**PRAWF GYRRU: Llongyfarchiadau i Eurig Jones, Cynefin ar lwyddo yn ei brawf gyrru.**

**GEMAU**

**'Welais i neb yn Hong Kong**<br>**yn chwarae ping-pong,**<br>**ond yn San-fransisco**<br>**mi glywais**<br>**sgrechiadau'r disgo.**

**A gwelais arwyddion**<br>**fod rhywrai rownd y cloc,**<br>**yn chwarae gêm hyna'r byd**<br>**yn ninas Bangkok.**

**Selwyn Griffith, Bethel**




BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

E.W.Pritchard

CENTRAL GARAGE

Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626**



LLWYDDIANT: Ar y Sadwrn olaf o Fedi eleni enillodd Kevin Tame, Sŵn y Dail, dair cwpan yng nghystadleuaeth fewnol flynyddol Seindorf Arian Llanrug. Enillodd yn yr unawd offeryn dan 12 oed, yna gyda'i ffrind David Jacobs yn y gystadleuaeth ddeuawd offeryn dan 16 oed. Daeth hefyd yn gyntaf gyda'i dad yn y d deuawd offerynnol agored. Mae ei fam yn brysur iawn hefo 'Silvo'.

CANGEN PLAID CYMRU: Os am ymaelodi â'r blaid eleni cysylltwch â Dic Jones, Mrs Mary Vaughan Jones neu Irene Roberts.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR: Newidiadau i'r rhaglen:
**(i) Canu Piano** – yr holl gystadlaethau canu piano yn hunanddewisiad.
**(ii) Adrodd 10-12 oed** – Sŵn, T. Llew Jones allan o Cerddi Gwlad ac Ysgol.
**(iii) Parti Adrodd 10-12 oed:** Unrhyw
**(iv) Parti canu dan 18 oed:** unsain nid deulais.

Rhaid i gystadleuwyr yn yr adran Gwaith Llaw, Arlunio, Coginio a Ffotograffiaeth ddod â'u cynnyrch i'r Ysgol Gynradd erbyn 6 o'r gloch nos Fawrth, **Tachwedd 6.** Ni dderbynnir dim ar ôl 6 o'r gloch.

CAFFI'R STEDDFOD: Eleni byddwn yn darparu bwyd ysgafn am bris rhesymol yn y ganolfan rhwng cyfarfod y prynhawn a nos. Bydd ar werth hefyd yn ystod cyfarfod yr hwyr. Os am gynorthwyo neu gyfrannu cysylltwch ag Irene Roberts.

Cofiwch gefnogi'r eisteddfod eto eleni yn ôl eich harfer.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod fis Hydref o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos Iau Hydref 4 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Estynnwyd cydymdeimlad yr aelodau â Mrs Morgan Jones a Miss M. Roberts yn eu profedigaeth.

Mrs Katie Wynn Jones fydd cynrychiolydd yng Nghyngor yr Hydref o'r Sefydliadau a gynhelir yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Cafwyd sgwrs ddiddorol, gyda sleidiau ar waith 'Byddin yr Iachawdwriaeth' gan y gŵr gwadd, Major Arthur Brown. Diolchwyd iddo gan Mrs Buddug Rowlands.

Cynhelir y cyfarfod nesaf – y Cyfarfod Blynyddol – yn Festri Croesywaun nos Iau Tachwedd 1.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod ar Fedi 27 yn yr Ysgol. Rhoddodd y Llywydd, Mrs Olwen Williams, groeso i ddwy o aelodau newydd. Cydymdeimlwyd â Mrs Brenda Jones a Mrs W. Morgan Jones sydd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar. Cyfeiriwyd at brinder llyfrau Cymraeg yn yr ysbytai lleol a gofynnwyd i aelodau ddod â llyfrau y gallant eu hepgor i'r cyfarfod nesaf pryd y gwneir trefniadau i'w hanfon i'r ysbytai.

Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau gan Gangen Llandwrog i ddod i ddarlith yno ar Hydref 31. Dylai'r rhai sy'n bwriadu mynd roi eu henwau i Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen.

Mae Cangen Waunfawr yn ddeg oed eleni ac i ddathlu'r amgylchiad 'roedd Mrs Eluned Roberts wedi gwneud teisen pen-blwydd arbennig. 'Roedd aelodau'r pwyllgor wedi paratoi danteithion a thorrwyd y deisen gan Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, yr aelod hynaf. Atgoffwyd yr aelodau gan y Llywydd am yr uchelfannau yn hanes y gangen trwy'r deng mlynedd. Diddanwyd yr aelodau gan Miss Jini Owen, Pontllyfni, a diolchwyd iddi gan Miss Bessie M. Jones. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs Gillian Wyn, gan Mrs Sylvia Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol ar Hydref 25. Estynnir croeso i aelodau newydd gan eu sicrhau fod rhaglen amrywiaethol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer y tymor.

CLWB GWYRFAI: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor yn y Ganolfan ar Hydref 4. Wrth longyfarch ein llywydd, y Parch Trefor Jones ar ei benodiad yn Reithor Llanfairfechan datganodd Mrs Idris Jones ein tristwch o golli ei wasanaeth parod a'r diddordeb ynddom fel aelodau.

Cydymdeimlwyd â Mrs Morgan Jones a'r Dr Prys Morgan Jones yn eu profedigaeth ddiweddar.

Hefyd â theulu cyn-aelod ffyddlon a hoffus, Miss Dora Jones, Caeathro, fu farw yn ystod yr haf.

Ein gŵr gwadd oedd Mr Frank Rhys Jones, Ceidwad Amgueddfa Llongau yn y Cei, Caernarfon.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo gan ddangos ar ffilm y gwaith gwirfoddol wneir gan gymdeithas arbennig i alluogi pobl anabl i gymryd rhan ymarferol mewn trin llongau a hwylio. Diolchwyd i Mr Jones gan Dr Miles.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Pritchard, Tref Eilian ac fe'i enillwyd gan Miss O. Williams.

CLWB GWYRFAI: Medi 18: Llywyddwyd y cyfarfod yma o'r Clwb gan y Parch Trefor Jones.

Croesawodd y Ficer dri aelod o Glwb Blodau'r Grug, Llanrug sef Mrs Iola Butler, Mr Cledwyn Williams a Mr J. Wyn Williams. Roedd cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Mr Emlyn Davies rhyngddynt a thîm lleol yn cynnwys y Ficer, Mrs Awstin Jones a Dr Miles ar Wybodaeth Gyffredinol. Yr ymwelwyr a orfu o hanner marc.

Enillwyd y raffl gan Mrs Mottram.

Diolchwyd i bawb gymerodd ran ac i'r gweinyddesau te gan Mrs Parry Williams. Ar Dachwedd 1 bydd P.C. Arthur Rowlands yn ymweld â ni.

YR EGLWYS: **Diolchgarwch:** Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf ddydd Sul Hydref 14 yn Eglwys Sant Ioan. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn y bore gan y Ficer, Y Parchedig E. trefor Jones. Cynhaliwyd y Gosber yn y prynhawn a'r Rheithor, Y Parchedig Barry W. Thomas, yn gweinyddu. Y pregethwr gwadd oedd Y Parchedig David Noel Jones, Ficer Porthmadog. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss M. Roberts. Addurnwyd yr eglwys yn hardd iawn ar gyfer y gwasanaethau gan ferched yr eglwys.

**Ystafell yr Eglwys:** Bydd Ystafell yr Eglwys yn hanner can mlwydd oed ar Dachwedd 22. Trefnir noson arbennig ar y dyddiad hwnnw i ddathlu'r achlysur.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma rest o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: 1: £40, S. Wroe, Bryn Siriol, 2. £25, Mrs M.Ll. Jones, Bryn Tawel, 3. £10, Mrs M. Jones, Graianfryn.

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref: 1: £40, Dafydd Iwan, Pen y Berth, 2. £25, Mrs Barbara Griffith, 13 Tref Eilian, 3. £10, R. ap Wyn Williams, Tegannedd.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr iawn â Mrs Jones, Pant Cae Haidd a'r Dr Prys Jones yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU:
– i Sue ac Egryn Roberts, Gables, ar enedigaeth mab bychan, Simon Lloyd, brawd i Ian.
– i Dafydd Glyn Williams, Llwydiarth, ar ei briodas â Carys Ann Owen, Glandŵr, Llwyngwril. Maent am ymgartrefu yn 41, Ty'n Rhos, Gaerwen.
– i Wendy a Gari, Pen Clip, ar eu priodas hwythau.
– i Eilian Wyn Jones, Bron Eifion, ar ei ddyweddïad â Betty o Lundain.
– i Mrs Lewis, Tŷ Ysgoldy, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.
– i Gwilym Hughes, Tref Eilian ar ei ymddeoliad o MANWEB. Dymunwn bo peth gorau iddo a gobeithiwn y bydd yn cael adferiad iechyd buan iawn.

YN YR YSBYTY: mae Mrs Walker, Bryn Golau a Mrs Idris Humphreys, Arwel. Anfonwn ein cofion atynt a dymunwn wellhad buan iawn iddynt.

ADREF O'R YSBYTY: daeth Karen Bound, Dolafon, Mr David Clark, Tref Eilian, ac Aeron Jones, Glyn Ceris. Gobeithiwn eu bônt yn parhau i wella.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Medi:
1. Emlyn Williams, Aneddle, 2. Norman Williams, Llidiart Wen, 3. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon.

YR YSGOL: Cafwyd gwasanaethau arbennig i ddathlu Diolchgarwch yn yr ysgol. Bore Iau cafwyd gwasanaeth gan y ddau ddosbarth babanod a bore Gwener gan y dosbarthiadau iau. Yn bresennol yr oedd y Ficer, y Parch trefor Jones, y Parch Brython Davies, Caernarfon a Mr Eurig Wyn, Cadeirydd y Rheolwyr. Hefyd yn bresennol yr oedd Mrs Gloria Wilkes o Oxfam i dderbyn siec o £50, sef casgliad arbennig gan y plant i'r apêl gan y Mudiad tuag at y newyn yn Ethiopia.

Ar ôl gwyliau'r Diolchgarwch bydd holl blant yr ysgol yn paratoi ar gyfer eu Cyngerdd Nadolig yn y Ganolfan, nos Wener, Rhagfyr 14.

Cafodd tîm pêl-droed yr ysgol fuddugoliaeth yn erbyn Ysgol Llanllyfni o 4 gôl i 0. Sgoriodd Kevin Tame 3 gôl ac Osian Gwynedd 1.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Tom Williams, Llwydiarth ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr holl anrhegion a dderbyniodd eu tri plentyn ar achlysur eu priodasau yn ystod y chwe mis diwethaf.

## CRONFA ACHUB Y PLANT

Mae Cadeirydd Pwyllgor Addysg Gwynedd, y Cynghorydd John L. Williams, yn gobeithio y gellir cyrraedd y swm o £10,000 at 'Gronfa Achub y Plant' cyn y Nadolig.

Eisoes mae ysgolion Gwynedd wedi codi dros £6,000 drwy bob math o gynlluniau ac yn awr mae Mr Williams yn galw am gefnogaeth i ymdrechion yr ysgolion mewn apêl at drigolion Gwynedd.

Dywedodd Mr Williams, "Mae'r argyfwng yn Ethiopia yn gwaethygu a miloedd yn marw o newyn. Nid oes dim gweithred well y gallwn ei gwneud rhwng yr Ŵyl ddiolchgarwch a'r 'Dolig na chyfrannu'n hael at y gronfa hon. Diolch i Gadeirydd y Cyngor Sir am ei arweiniad. Mae'r ysgolion wedi ymateb yn ardderchog ac wedi codi miloedd at achosion da eraill hefyd."

"Gobeithio y medrwn gyrraedd y £10,000. Dylid anfon cyfraniadau i: **'Cronfa Achub y Plant', Banc Barclay, Caernarfon.**

Rwy'n apelio at unigolion, pobl yn eu mannau gwaith, colegau, sefydliadau a chymdeithasau – pawb, i anfon cyfraniad **rŵan** cyn diwedd Hydref.



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
9-7pm
9-5pm Sadwrn
**AR GAU**
SUL, MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**
**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

# TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 6 yng Nghapel Tan-y-coed MC priodwyd Miss Enid Wynne, Llety Llwyd, unig ferch Mr a Mrs Owen Edwin Wynne â Mr Gareth Lloyd Jones. Y Parchn John Morris a W.O. Roberts, oedd yn gwasanaethu a'r organydd oedd Miss Ruth Lennon.

Llongyfarchiadau i'r pâr ifanc a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Y CAPEL: Pnawn Sul, Hydref 21 derbyniodd y Parch John Morris ddau aelod newydd i gapel Tan-y-coed – Mr a Mrs R.O. Jones, 4 Tai Minffordd. Y mae Cenwyn ac Anwen, mab a merch Mr a Mrs Jones, yn aelodau o'r Ysgol Sul ers peth amser. Croeso i'r teulu i'n plith yn Nhan-y-coed.

Pnawn dydd Sul, Hydref 22 cafwyd Gwasanaeth Diolch Ysgol Sul Tan-y-coed, y rhaglen wedi ei threfnu gan y gweinidog y Parch John Morris, ac ef oedd yn annerch y plant. Miss Enid Roberts oedd yr organyddes. Holl blant yr Ysgol Sul gafodd gyfle i gymryd rhan mewn darlleniadau, adroddiadau a chanu yn y cyfarfod. Estynnwyd croeso i'r Parch W.O. Roberts ac i Mr Robert Williams a diolch i'r ddau am eu cyfraniad mewn gwasanaeth i'r plant.

Daeth cynulliad da ynghyd – mamau, tadau a theuluoedd y plant a charedigion yr Ysgol Sul.

Nos Lun, a'r Parch W.O. Roberts yn llywyddu, pregethwyd gan y Parch Harri Parri, Seilo, Caernarfon.

Ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Mair Williams, 2 Tai Maesgerddi.

## DIOLCHGARWCH Y PLANT, TAN-Y-COED



*Plant Ysgol Sul Tan-y-coed yng Ngwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Nhan-y-coed bnawn Llun, Hydref 22. Tynnwyd y llun gan y Parch John Morris.*

# NANT PERIS


Gohebydd: Mrs J. E. Elis, 8 Glanrafon.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd dydd Diolchgarwch eglwys Sant Peris eleni ar Hydref 15. Gwasanaethwyd yn y prynhawn gan y Parch R.M. Keating, Ficer Llandudno ac yn yr hwyr gan y Parch Dilwyn Carey Evans, Rheithor Llanllechid. Ar Hydref 22 cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch yn Rehoboth. Cafwyd cyfarfod gweddi yn y bore a'r hwyr a chyfarfod gan y plant yn y pnawn dan ofal Mrs J.M. Williams. 'Roedd graen ar waith y plant fel arfer a hoel paratoi trylwyr ymlaen llaw. Gwerthfawrogir yn fawr ymroddiad Mrs Williams hefo'r plant bob amser.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs David Emrys Griffiths, 5 Bro Glyder ar fod yn hen nain a taid. Ganwyd mab, John Paul, i Billy a Cheryl, 1 Bro Glyder.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir â Mr Tecwyn Griffiths a'r teulu 6 Glanrafon yn eu profedigaeth o golli modryb oedd yn byw yn Ne Cymru sef chwaer i'w ddiweddar fam.

GENI: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs G Searell Jones, Gwynant ar fod yn nain a taid eto. Ganwyd merch i Rhiannon a Rhys Llewelyn sydd yn byw yn Pontypridd.

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**

**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**

*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*


# BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

MERCHED Y WAWR: Treuliodd y gangen noson ddifyr yng nghwmni aelodau o gangen Rhiwlas, pryd y cafwyd cwis ysgafn a hwyliog gan Richard Lloyd Jones, Stâd y Ddôl. Dilynwyd hyn gyda lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu gan y pwyllgor. Diolchwyd i bawb gan Mrs Ann Elis, Cilgeran. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd ar ôl ei hymweliad â'r ysbyty.

Gofynnir i'r aelodau sydd am fynd i'r cinio Nadolig roi eu henwau i un o'r swyddogion erbyn y cyfarfod nesaf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 14 pryd y bydd Miss E.V. Davies, Caernarfon yn arddangos Gosod Blodau ac Addurniadau at y Nadolig.

DIOLCH: Dymuna Shân a Ceri, Blaen Parc, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindia am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu pen-blwydd yn ddeunaw oed ar Awst 16. Diolch i staff Gwesty Victoria Llanberis am ddarparu'r parti pen-blwydd.

YR EISTEDDFOD: Erbyn hyn mae gweithgarwch mawr ym mhob cwr o'r pentre gyda chorau, partïon ac unigolion yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod. Wedi blwyddyn heb eisteddfod edrychir ymlaen at eisteddfod lwyddiannus eleni, ddydd Sadwrn, **Tachwedd 3**. Dechreuir cyfarfod y prynhawn am **1 o'r gloch** a bydd y drysau'n agored am **12.30**. Y beirniaid eleni yw Mr. G. Hughes Llandwrog (adrodd a llenyddiaeth), ac Einir Wyn Owen, Rhiwlas (cerdd). Llywydd yr eisteddfod yw Mrs Margaret Roberts, Deganwy.

Nos Iau, Tachwedd 1 bydd arddangosfa o'r cynnyrch celf a chrefft yn y Neuadd yn dilyn eu beirniadu gan Mr Goinsburg (arlunio), Mrs Eleanor Moses, Caergeiliog (gwnio a choginio) a Mr D. Evans, Penisarwaun (gwaith llaw).

YR URDD: Ailetholwyd y swyddogion yng nghyfarfod cyntaf pwyllgor yr Urdd eleni sef – Llywydd, Mr Geraint Elis, Cilgeran, Is-lywydd, Llinos Wyn, Aranwydd, Ysgrifenyddes, Mrs Fanny Owen, Bryn Teg, Trysorydd, Mr Dafydd Williams, Hafod.

Agorwyd y tymor eleni gyda cwis dan ofal Mrs F. Owen, Mrs Gwyneth Jones a Mrs Rita Williams a rhoddwyd dwy noson i'r plant gystadlu yn y cystadlaethau arlunio a llenyddiaeth. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Tachwedd 8 am 6 o'r gloch.

Bwriedir mynd â llond bws o'r aelodau i'r Pantomeim eto eleni. Dylai'r enwau a'r arian fod i mewn i Anti Fanny cyn Tachwedd 20. Pris y tocynnau ydi £1.60 i'r plant a £2.30 i oedolion.

YR YSGOL FEITHRIN: Cyflwynodd yr ysgol feithrin gloc llechen i Mrs Lynnwen Morris fel gwerthfawrogiad o'i llafur di-flino gyda'r plantos.

Mae gan Mrs Rita Williams gardiau Nadolig yr Ysgol Feithrin i'w gwerthu. Cysylltwch â Mrs Williams ar unwaith os ydych am brynu.

TRIP I GAER: Mae Clwb y Mamau yn trefnu bws i fynd i Gaer ddydd Sadwrn, tachwedd 24. Mae croeso i aelodau a rhai heb fod yn aelodau roi eu henwau i naill ai Mrs Sheila Lambrecht neu Mrs Linda Ellis.

CLWB Y RHOS: Agorodd tymor Clwb y Rhos gyda sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Selwyn Jones, Swyddog Atal Troseddau gyda Heddlu Gogledd Cymru. Diolchwyd i Sgt Jones gan Mr Dafydd Williams, Hafod.

Penderfynwyd estyn gwahoddiad i aelodau newydd ac os oes rhywun yn awyddus i ymuno dylai gysylltu ag unrhyw un o'r aelodau.

BEDYDD: Dydd Sul Hydref 7 bedyddiwyd Sarah, merch Mr Iolo Wynn Morgan a Mrs Alison Lesley Morgan, Bryn Alun gan y Parch W.R. Williams ar ôl yr Ysgol Sul.

CYDYMDEIMLO: Dydd Iau Medi 20 yn ei chartref yng Nghaernarfon bu farw Mrs Lizzie Roberts gynt o Bryn Banon. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.


Dydd Gwener Medi 21 yn Ysbyty Gallt y Sil bu farw Mrs Ellen Jones, Y Felin, Bryn Hyfryd. Estynnir ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Y CARNIFAL: Nos Wener, Hydref 12 cafwyd noson ddifyr yn y Neuadd pan ddangoswyd video o'r diwrnod carnifal gan Mr Tom Jones. Er ei bod yn noson stormus daeth criw da i'r Neuadd. Cafwyd paned o goffi a bisgedi wedi ei baratoi gan y Pwyllgor.




*Mr W. Parry, Tan y Buarth a ddaliodd ei swper, brecwast a'i ginio yn yr afon yn ddiweddar.*


**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# STREIC 1926



**OEDD, roedd hi'n oer, doedd dim glo i'w gael. Tân bach oedd ym mhob grât, a rhaid oedd mynd i'r gwely'n gynnar ambell i gyda'r nos am nad oedd tân o gwbwl. Ar ôl 'r ysgol, byddai criwiau ohonom ni, fechgyn a merched, yn tyrru hefo sachau i Goed y Glyn i chwilio am frigau crin i'w llosgi. Nawr ac yn y man, gwelem y sarjant neu'r plisman yn cuddio mewn rhyw gornel neu'i gilydd, yn gwylio na fyddai neb yn torri'r coed. Roedd yn yn cael ei wneud yn aml, a charia'r hogia fag bach o huddug i dduo'r marc lli ffres. Hyd yn oed ar ôl storm wyntog, roedd brigau crin cyn brinned ag aur, oherwydd y nifer lluosog oedd yn mynd ati gywain.**

Un bore Sadwrn, ar ôl noson enbyd, galwodd fy nhad arnaf. "Gronwy, côd, gwisga a tyrd lawr i'r gegin."

Roedd rhywbeth yn ei lais yn fy mrysio. Wedi i mi ddod i'r llawr, rhoddodd nodyn i mi.

"Cer â hwn ar unwaith i Fron Eryri, a thyrd â'r ateb yn ôl yn syth."

Hefo'r corwynt, diwreiddiwyd dwy goeden fawr ar draws y ffordd, un ym Mhant Du, a'r llall ym Mhant 'Rafon. Nodyn oedd o yn gofyn caniatâd i glirio a chael y coed. Rhoddwyd yr hawl ar unwaith, dan yr amod fod y waliau a chwalwyd gan y boncyffion yn cael eu hailgodi.

Dyna ddiwrnod. Benthycwyd dwy lif draws o'r chwaral, ac roedd dynion Llainwen wrthi trwy'r dydd, yn llifio'n ddibaid. Erbyn gyda'r nos, doedd dim ond gwreiddiau i'w gweld, ac fe ddiflannodd y rhai mwyaf o'r rheini hefyd, dros yr wythnosau dilynol. Wrth gwrs, roedden ni blant yn 'i chanol hi, ac yn gwneud ein siâr trwy rowlio'r darnau coed i'r gwahanol gartrefi. Erbyn diwedd y dydd, doedd dim ond lle bu y deri tal, ac roedd addewid gwres yng nghytiau glo y gymdogaeth.

"O ble ydach chi wedi dŵad?"

"O Rhos Llannerchrugog."

"Pa bryd neuthoch chi adael?"

"Pythefnos yn ôl. Wel bron bythefnos."

"Lle gysgoch chi neithiwr?"

"Mewn tŷ gwair ym Mhentre Foelas."

"Ydach chi am ei throi hi am adra?"

"Ymhen rhyw wythnos arall."

Wrth i fy nhad holi un o'r gweithwyr glo a ddeuai o gwmpas yn rheolaidd yn gorau bychain i ganu am geiniogau yn y strydoedd, canu emynau a chaneuon gwerin, deuais innau yn ymwybodol fod pobol o bell yn siarad Cymraeg hefo acen hollol wahanol i ni. Eisoes, roedd Elin Jones, Mem ac Annie Wheldon, allan hefo tebotia a chwpanau yn cynnig paned – paned oedd bob amser yn cael ei derbyn. Safai'r coliars yn gylch bach yng nghanol Pant Du i roi datganiad o tua ugain munud, cyn symud i fyny'r allt i gyfeiriad Teras Olgra. Weithiau, er mawr lawenydd i ni'r plant deuai band pres, ond côr neu fand, roedd yna geiniog neu ddima, o bron bob tŷ, yn disgyn i'r blychau, a llawer i blatiad o frechdanau'n diflannu'r un pryd.

---

"Dowch i ni fynd i ganu."

"Mynd i ganu? I beth?"

"Er mwyn i ni gael pres." Un ohonom yn cael 'brain wave'.

"Neith neb roi pres i ni am ganu."

"Ddim yn Llainwen. Mi awn ni i ganu yn rhywle arall."

"Ym mhle?"

"Yn Ianci."

Ffwrdd â ni, sefyll yn gylch fel y gwnâi'r streicwyr, a chanu.

'Rwyf fi yn filwr bychan', o'r dechrau i'r diwedd. 'Welson ni'r un ddima', ac ni ddaeth neb â phanad o de i ni, ond daeth Now Jones Bryn Golau heibio a dweud,

"Da iawn hogia. Canwch hi eto."

Yn amlwg, 'doedd yr oedolion a ni ddim ar yr un donedd.

Ond doedd gan yr un ohonom ni le i rwgnach. Pan welaf ddarluniau o blant Cymoedd y De 'ma yn casglu i gael eu bwydo, llawer i un yn droednoeth, cofiaf nad oedd yr un ohonom ni heb bâr o sgidiau ac roedd yna fara ar fwrdd pawb.


# SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

*LLANBERIS 871354*


# CYFARFOD FFARWELIO Â HOWEL E. JONES

**Parti i Howel, Mai 8, 1925 yn Caban Penrhyn Bach Chwarel Dinorwig cyn iddo hwylio i Awstralia.**

**Fel y Canwyd Iddo**

**Wrth hwylio ein Howel i gychwyn**
**I wledydd pellennig y byd**
**Mae pawb ar eu gore yn dymuno**
**Ei lwyddiant a'i hawddfyd o hyd**
**Er hynny fy nghyfaill, na ddisgwyl**
**Eu gweled yn dyfod i gyd**
**Mae somiant ym mharthau**
**Awstralia**
**Fel Cymru a phobman o'r byd.**

**Wyt wrol yn cychwyn mor euanc**
**Bron cyrraedd dy ugain mlwydd oed**
**Bydd wrol ym mhobman lle byddig**
**A gwylia lle rhoddi dy droed**
**Rhyd lwybrau dy fywyd bydd wrol**
**I sefyll yn gadarn a phur**
**Dro rhinwedd gonestrwydd**
**gwirionedd**
**Er gwaethaf pob siomiant a chur.**

**Wrth gadw yn llwybr gwirionedd**
**A chofio cynghorion dy fam**
**Dy lwyddiant fydd sicr a helaeth**
**A bendith a'th ddilyn bob cam**
**Fe'th geidw yng ngrym y demtasiwn**
**Fe'th gynnal yn gadarn a hir**
**Os chwi i gofio'th Creawdwr**
**A pharchu ochrau y gwir.**

**Gan Hogia'r Bonc**

Yng nghaban Pont Penrhyn Bach, yn ystod awr ginio Mai 8, 1925, cynhaliwyd cyfarfod ymadawol i'r brawd ieuanc Howel Jones o Lanrug, sydd gydag eraill yn bwriadu myned i Awstralia. Cafwyd cyfarfod eithriadol o dda; gwasanaethwyd mewn canu gan Owen E. Williams, Pontrhythallt, Llanrug ac mewn adrodd gan Owen Jones, Caernarfon, a W.H. Williams Tyddyn Uchaf, Ebenezer. Hefyd caed detholiadau ar y gramaphone gan David Arthur Jones, Ebenezer, a chaed trwy gyfrwng hwn glywed rhai o brif gantorion y byd, ac yn eu mysg Calli Curzi y Soprano Eidiadol fydenwog a rhai o'r Seindorf goreu maen siŵr. Ar rhan y bonc gyflwynwyd anrheg sef Portmanteau hardd i'r brawd euanc gan y gweithiwr, hynafyn y bonc, Sef: John E. Jones, Ebenezer, a rhoddodd gynghorion buddiol a gwerthfawr iawn iddo, ac yn fuddiol i bobl ieuanc oedd yn ei wrandaw; a diolchodd Howel mewn fyr euriau i bawb am eu caredigrwydd; cafwyd gair gan y rhai Canlynol hefyd, Mr R. Jones, John M. Parry, Griffith M. Hughes, Owen Owens, a dymuniad pawb oedd am fendith a llwyddiant in brawd ieuanc, dymynol a hoffus gan bawb.
Llywyddid y cyfarfod gan lywydd y bont.
Mr D. Arthur Jones."

**Howel E. Jones, 20 Hopper Street, Utica, N.Y. 13501 brawd Mrs Hanna Jones, Bryn Coch Teras, Llanrug.**

# LLYFRAU

Dyma lyfrau a gyhoeddwyd yn ystod mis Medi dan nawddogaeth Cynlluniau Llyfrau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.

**Mathemateg Nuffield 5:** Cyhoeddwr: D. Brown a'i feibion. Pris: £2.95. Y trydydd llyfr yn yr addasiad Cymraeg o gwrs newydd Nuffield ar gyfer yr ysgol gynradd. Mae'n addas ar gyfer plant 9 i 10 oed yn bennaf.

**Yr Undebau Llafur yn y Bedwaredd ganrif ar bymtheg:** Gwasg Prifysgol Cymru. Pris: £1.50.

Y llyfryn diweddaraf yn y gyfres hanes a baratowyd gan Broject Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig yn yr Adran Addysg, Coleg Prifysgol, Aberystwyth. Yn unol â phatrwm y gyfres cynhwysir nifer helaeth o luniau a chartwnau perthnasol ynghyd â dyfyniadau o ffynonellau cyfoes o'r cyfnod y mae'r llyfryn yn ymwneud ag ef.

**Cariad Mam:** Gwasg y Dref Wen. Pris: £3.65.

Llyfr lliwgar ar gyfer darllenwyr yn yr ysgol gynradd, ceir dros ddeugain o benillion ysgafn am fachgen bach drygionus a'i fam amyneddgar.

Chwe chyfrol liwgar yn y gyfres Sylfeini – sef cyfres ffeithiol ar gyfer darllenwyr 7-10 oed gan Wasg y Dref Wen. Pris: £2.60. **Y Gorllewin Gwyllt, Camlesi ac Afonydd, Marswpialod, Adar Ysglyfaethus, Dillad, Byd y Ballet.**

Y bedair cyfrol gyntaf mewn cyfres o 18 o lyfrau Bioleg a baratwyd gan Broject Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig yn Adran Addysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Anelir y gyfres at ddosbarthiadau 1, 2 a 3 yn yr ysgol uwchradd.

**Bioleg 1. Adnabod Pryfed ac Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn Eraill; Bioleg 2. Coed yn Ystod yr Hydref a'r Gaeaf; Bioleg 3. Coed yn ystod y gwanwyn a'r haf; Bioleg 4. Ecoleg Maes Chwarae'r Ysgol** – Gwasg Gomer. Pris £2.00

Tair cyfrol yn y gyfres o Lyfrau Addysg Grefyddol (Project Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig).

**Y Deml a'r Synagog; Gweithwyr Dros Grist; Cyfamod Duw â'i Bobl.** D. Brown a'i feibion. Pris £1.50.

Cyfrolau diweddaraf y gyfres o lyfrau daearyddiaeth (Project Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig) wedi eu hanelu at ddosbarthiadau 1, 2 a 3 yn yr Ysgol Uwchradd.


**Poblogaeth 2. Aneddiadau 1 ac Aneddiadau 2.**

Gwasg Gomer. Pris £1.50.

# DYDDIADUR

TACHWEDD:
1, Iau: LLANBERIS: Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.30 pryd y ceir ffilmiau gan y Parch Gwynfor Williams.
Cymdeithas y Merched yn Angorfa am 7.30.
WAUNFAWR: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Sefydliad y Merched.
Clwb Gwyrfai – sgwrs gan PC Arthur Rowlands, Caernarfon.
DEINIOLEN: Cymdeithas Chwiorydd Capel Disgwylfa.
LLANRUG: Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.
2, Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn y Cwt Band am 7.30.
LLANBERIS: Clwb yr Henoed.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA 'Arlunio'.
Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn rhoi pryd o fwyd i'r henoed yn y Ganolfan am 12.30.
LLANRUG: Arwerthiant Cymdeithas y Chwiorydd yn festri Pontrhythallt.
YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30 pryd y ceir anerchiad gan Mr R.H. Parry.
3, Sadwrn: BETHEL: Eisteddfod.
5, Llun: LLANRUG: Dosbarth nos WEA.
LLANBERIS: Dosbarth nos WEA 'Arlunio'.
Dosbarth nos WEA 'Critical Thinking'.
Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
6, Mawrth: BETHEL: Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Bethel.
Clwb Bro Bethel yn Festri Cysegr.
DEINIOLEN: Dosbarth nos WEA 'Nes na'r Hanesydd . . .'.
Llanberis: Dosbarth nos WEA 'Dysgu Cymraeg'.
Dosbarth nos WEA 'Gweithdy Drama'.
LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – Cwis yng ngofal Mr Meirion Jones, Ysgol Brynrefail.
7, Mercher: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – 'Addurno Cacen Nadolig' gyda Mrs Pat Roberts, Brynrefail.
8, Iau: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr.
Clwb Blodau'r Grug.
WAUNFAWR: Darlledu rhaglen radio 'Piniwn' yn y Ganolfan am 7.30.
LLANBERIS: 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw tuag at yr NSPCC.
9, Gwener: WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA.
11, Sul: SUL Y COFIO.
12, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
Dosbarthiadau nos WEA.
LLANRUG: Dosbarth nos WEA.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA 'Agweddau ar Hanes Cymru'.
13, Mawrth: LLANBERIS: Dosbarthiadau nos WEA.
LLANRUG: Merched y wawr – sgwrs gan Mr Guto Roberts.
DEINIOLEN: Clwb Elidir.
14, Mercher: BETHEL: Merched y Wawr – Arddangosiad o osod blodau ac addurniadau'r Nadolig gan Miss E.V. Davies, Caernarfon.
16, Gwener: LLANBERIS: Ffair Gaeaf Ysgol Dolbadarn am 7.00.
Clwb yr Henoed.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA.
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
17, Sadwrn: WAUNFAWR: Eisteddfod yn y Ganolfan.
Tachwedd 18-24: Wythnos Ddyngarol yr Urdd.
18, Sul: YR ARDAL: Gwasanaeth arbennig gan aelodau'r Urdd yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.
19, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
Dosbarthiadau nos WEA.
LLANRUG: Dosbarth nos WEA.
WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 – darlith gan Mr Richard Hughes, Y Felinheli, 'Yr Hen Gaernarfon'.
DEINIOLEN: Merched y Wawr – sgwrs gan Mrs Arvona Jones, Bangor.
20, Mawrth: LLANBERIS: Dosbarthiadau nos WEA.
PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.
LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – Ffilm o Rwsia gan Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.
YR ARDAL: Ymgyrch Genedlaethol Sefydliad y Galon – Noson Goffi yng Ngwesty y Royal, Caernarfon.
22, Iau: WAUNFAWR: Noson arbennig i ddathlu Hannercanmlwyddiant Neuadd yr Eglwys.
23, Gwener: LLANBERIS: Ffair Nadolig Clwb yr Henoed yn y Ganolfan.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA.
24, Sadwrn: BETHEL: Trip Clwb y Mamau i Gaer.
26, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
Dosbarthiadau nos WEA.
LLANRUG: Dosbarth nos WEA.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA.
27, Mawrth: LLANBERIS: Dosbarthiadau nos WEA.
DEINIOLEN: Clwb Elidir.
PENISARWAUN: Clwb y Mamau.
30, Gwener: LLANBERIS: Clwb yr Henoed.
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA.
Y Gymdeithas Lenyddol – Noson Goffi yn y Ganolfan.
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug.

## EISTEDDFOD LLANRUG



*Yr olygfa tu cefn i'r llwyfan yn ystod un o'r cystadlaethau i'r plant bach.*


Beth am ddod i gystadlu i

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**

Manylion gan Emlyn Jones
Bethesda 600846

Neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, nos Wener, Tachwedd 16 am 6.30 p.m. a dydd Sadwrn Tachwedd 17, 12.30 a 6 p.m.

Lluniaeth ysgafn yn yr ysgol bnawn Sadwrn



**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

**E. PUGH**


**WELDING & FABRICATING**

32 GLANFFYNNON

**LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394


# CROESAIR TACHWEDD




**AR DRAWS:**
1. "Farwel fy annwyl gariad
Nid wyf yn . . . . . . ." (4,3)
3. Ticed (5)
6. Anifail a ddefnyddir i hela (5)
8. Grŵp pop cyntaf Dewi Pws (5,4)
10. Ymofyn (3)
12. Marc, tua'r cefn?
13. Yr hyn sydd mewn tebot euraidd? (2)
16. Ar ôl hynny (3)
17. Un o'r dair ar ddeg – ond rhan o glwyd 'nawr (3,1,5)
19. Cwmni yn troi'n enillion
20. Weiarles! (5)
21. Lle iraidd (3,4)

**I LAWR:**
1. Mae'r ateb ar ei ben (2,3)
2. Gwahanu (7)
3. Gorthrwm (5)
4. Fic sy'n addo gwneud y gerddoriaeth (9)
5. Byddwn yn dathlu'r mis nesa' (7)
7. Cynnig, neu sgôr mewn rygbi (4)
9. Cynhaliaeth (4,1,4)
11. Disynnwyr (7)
14. Omar Sharif, er enghraifft (7)
15. Arswyd (4)
17. Si Now yn gwneud sŵn (5)
18. "Gwen . . . . .". Nofel gan Daniel Owen (5)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion at **Twrog Jones, 23 Glanffynnon Llanrug.**

Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.


**Awdurdod Datblygu Cymru**

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh Development Agency**

# CHWARAEON

## MARATHON ERYRI

Gan nad oedd Jeff Norman, enillydd y ras am ddwy flynedd gyntaf yn rhedeg eleni, roedd y ras yn gwbl agored i unrhyw un ei hennill. Mae'n debyg mai Malcolm Jones o Dremadog, aelod o Redwyr Eryri oedd y ffefryn i ennill, gan iddo ddod yn agos i'r brig yn ystod y ddwy farathon ddiwethaf – ond nid felly y bu, ac er iddo ddal gafael yn yr ail safle, roedd ei amser o 2 awr 42 munud gryn dipyn yn arafach na'r enillydd – Mike Neary o Fanceinion, a gwblhaodd y cwrs caled mewn 2 awr 29 munud.



*Cefnogaeth frwd i'r cyntaf o'r rhedwyr yn y Rhyd-ddu — ond dŵr ac oren yn unig ar y bwrdd o flaen y dafarn!*

Enillwyd ras y merched gan Bridget Hogg o Riwlas mewn record newydd o 3 awr 28 munud, ac aelod arall o Redwyr Eryri – Ruth Parry, ddaeth yn ail.

Y rhedwr gorau o fro'r 'Eco' oedd 'Robat' Williams o'r Waunfawr mewn 3 awr 11 munud.

Eleni, roedd mwy nag erioed yn cystadlu, tua 800 – a'r rheini'n dod o bob cwr o Brydain ac o dramor – (bûm yn cyd-redeg â gweithiwr o Bahrain am gyfnod – daeth i Lanberis yn arbennig i redeg y cwrs "prydferthaf yn y byd" meddai).

Enillydd y ras i ddynion dros 40 oedd oedd Donald Williams o Fynydd Llandegai, a ddaeth yn chweched hefyd yn y brif ras.




*Malcolm Jones o Dremadog a ddaeth yn ail yn y ras — yn cael gorffwys haeddiannol ar ôl gorffen.*




*Mike Neary o Fanceinion yn ennill Marathon Eryri.*

### SNWCER

Mae Cynghrair Bangor a'r Cylch bellach wedi ail-ddechrau ar dymor y gaeaf, ac y mae timau bro'r 'Eco' yn flaenllaw yn y d dwy adran. Gleision Llanrug sydd ar frig Adran 'A', ac y mae Gleision Bethel yn gyfartal gyntaf ar frig Adran 'B'.

Bydd Cochion Llanrug yn wynebu tymor caled i aros yn yr Adran gyntaf. Ar hyn o bryd maent yn cadw cwmni i Leision Nantlle ar waelod yr Adran, gyda Gleision Deiniolen un cam yn uwch na hwynt. Mae Duon Deiniolen yn gyfforddus yng nghanol yr Adran.

Yn yr ail Adran, mae Gleision Bethel a Chochion Deiniolen yn weddol agos i'w gilydd tua chanol y tabl.

## CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

**LLANBERIS**

Nid yw teithiau'r Darans i barthau deheuol y Gynghrair wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni. Colli'n erbyn tîm y Penrhyn yn gynharach yn y tymor, ac yna colli wedyn i Harlech – dwy gêm a allai fod yn dyngedfennol i ganlyniadau'r bencampwriaeth – gyda'r Penrhyn bellach ar frig y Gynghrair, a Harlech yr unig dîm heb golli.

Er hynny, talwyd y pwyth yn ôl i Harlech yn Her Gwpan Gogledd Cymru, pan gurodd Llanberis o ddwy gôl i un ar domen y castellwyr.

**LLANRUG**

Er bod Llanrug wedi bod yn rhoi gwersi ar sut i sgorio i weddill timau'r Gynghrair, eto'i gyd mae angen gwersi ar sut i fyhafio ar rai o'u chwaraewyr. Mae enwau sawl un ohonynt wedi mynd i lyfrau'r dyfarnwyr y tymor hwn, ac y mae dau chwaraewr eisoes wedi eu hanfon o'r cae. Beth sy'n digwydd i'r tîm a enillodd y Tlws Chwarae Teg fwy o weithiau nag unrhyw un arall?

Mae Llanrug bellach yn bedwerydd yn y Gynghrair, ond maent yn cael trafferthion i ennill eu gemau Cwpan – chwarae'r Blaenau ddwywaith yn rownd gyntaf y Cwpan lau, ac yn dilyn gêm gyfartal yn erbyn Llanfairfechan y Sadwrn diwethaf, bydd rhaid ail-chwarae eto.

**DEINIOLEN**

Crasfa waethaf y tymor! Bydd tîm Deiniolen yn fwy na balch o weld cefn mis Hydref, a hynny'n dilyn cweir anferthol gan dîm Penrhyndeudraeth. Bu'n rhaid i hogia Deiniolen ail-gychwyn y gêm bymtheg!! o weithiau.

**BETHEL**

Parhau heb ennill gêm yn y Gynghrair y mae Bethel, ac unwaith eto'r tymor hwn mae misoedd o ymfalchïo caled yn eu hwynebu.

SAFLEOEDD Y GYNGHAIR

| | Ch | E | Cyf | Colli | O Blaid | Yn Erbyn | Pwyntiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 8 | 6 | 0 | 2 | 44 | 14 | 12 |
| Llanberis | 7 | 5 | 0 | 2 | 28 | 9 | 10 |
| Deiniolen | 10 | 1 | 1 | 8 | 11 | 53 | 3 |
| Bethel | 8 | 0 | 2 | 6 | 6 | 31 | 2 |

## LLANRUG YN EU DILLAD NEWYDD




*Tîm Llanrug yn gwisgo eu dillad newydd a gyflwynwyd iddynt gan Mr Tony Roberts, Penbont, Llanrug.*




*Goronwy Roberts (Cadeirydd Llanrug) yn diolch i Tony Roberts ar ran y Clwb am rodd o ddillad newydd i'r Clwb. Gary Davies y capten yn arddangos y crys gydag enw tafarn Penbont arno. Diddorol nodi fod Tony Roberts yn un o hen chwaraewyr y Clwb — blaenwr a achosai gur pen i gefnwyr fel Gary!*